

ECO'R WYDDFA

RHIF 13

MAWRTH 1977

Pris: 10c

**Ar draws y gorwel lle'r â'r haul i lawr
Dros rynnau eithaf y caregog dir,
Mae Eglwys Llanddeiniolen...**



'MARWOLAETH'

HEN EGLWYS LLANDDEINIOLEN

HEB OS, hen Eglwys Llanddeiniolen yw un o'r adeiladau enwocaf yn y fro hon. Felly, braw mawr i ni fel Bwrdd Golygu Eco'r Wyddfa oedd derbyn llythyr y Rheithor, y Parch. Geraint W. Edwards, a dau swyddog yn cyhoeddi os na chodir tua £1000 i atgyweirio'r eglwys y canlyniad fydd 'marwolaeth y fangre gysegredig hon'.

Sefydlwyd yr Eglwys gyntaf yn Llanddeiniolen gan Deiniol Sant yr Ieuengaf yn y cyfnod 580 - 600 o oed Crist ond nid oes gofnod o ficer i'r Eglwys tan y flwyddyn 1357. Ymysg y ficeriaid 'roedd Hugh Lewis, cyfieithydd 'Perl mewn Adfyd' tua diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg a Robert Wyn (Garthewin) tua 1667. Anfarwolwyd yr Eglwys gan W.J.Gruffydd yn ei gerdd "Ywen Llanddeiniolen" sy'n sôn am y tair ywen ger yr Eglwys sydd tua 1500 mlwydd oed.

Ail-adeiladwyd yr Eglwys bresennol tua 1841. Erbyn heddiw, er mai Eglwys Llanddeiniolen yw Eglwys y Plwyf, mae'r boblogaeth o gwmpas yr eglwys wedi gostwng yn arw ac ni cheir llawer mwy na phymtheg o gynulleidfa i'r gwasanaethau a gynhelir bob nos Sul. Erbyn hyn mae angen cryn gost

ar yr Eglwys ac mae'r Rheithor, y Parch. G.W.Edwards a'r Wardeniaid, Mr. D. Harrison a Mr. Sam Morris, sydd wedi bod yn Warden y Bobl am hanner can mlynedd, wedi anfon llythyr i'r plwyfolion i gyd yn apelio am gyfraniad i gronfa atgyweirio'r Eglwys.

Mae Eco'r Wyddfa yn falch o gael hybu'r achos drwy gyhoeddi'r llythyr ac ehangu'r apêl i ardal yr Eco i gyd.

Ficerdy Santes Helen,
Penisarwaun.
Tel. Llanberis 218.

Annwyl Gyfaill/Gyfeillion,

Carwn dynnu sylw holl ffrindiau hen eglwys Llanddeiniolen at y llythyr hwn a ysgrifennais at y Plwyfolion yn ddiweddar.

"Teimlwyd ers tro bellach yr angen o atgyweirio a pheintio eglwys Llanddeiniolen. Fe saif eglwys yn y man cysegredig hwn

ers canrifoedd bellach yn dystiolaeth gadarn i'n Harglwydd. Ond erbyn heddiw mae perygl i'r hen adeilad fynd yn furddun. Tristwch ofnadwy fyddai hyn i'r saint sy'n mynychu'r gwasanaethau o Sul i Sul yn ogystal ag i minnau fel Rheithor y Plwyf. Penderfynwyd felly gwneud apêl i godi arian er mwyn sicrhau dyfodol yr adeilad.

Bûm yn ymweld â'r eglwys y dydd o'r blaen gyda chreffftwr sydd yn barod i ymgymryd â'r gwaith. Addunodd y gŵr da hwn anfon amcangyfrif i mi o'r gost fydd yn ddyledus arnom, yn ogystal â'm sicrhau na bydd fawr, os rhywfaint, o newid o £1,000.

Ymddengys y swm hwn nid yn unig yn drwm ond hefyd yn amhosibl i'r plwyfolion ar eu pen eu hunain, a byddai methiant yn golygu marwolaeth y fangre gysegredig hon.

I'R ECO (ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf

Wedi blwyddyn da yw 'bloeddio' - "Hwrê";

Dal yn gryf mae'r Eco;

Am ei bris mae'n rhwymo bro

A ninnau'n falch ohono.

Tony Elliott

Pris Yr Eco'n codi i 10c

MAE'N DDRWG gan y golygydd a phwyllgor ECO'R WYDDFA orfod cyhoeddi mai 10c fydd pris yr Eco o hyn allan. Penderfynwyd hyn gan y pwyllgor yn ystod mis Chwefror.

Dangoswyd pryder ynglŷn â'r codiad sydyn ym mhrys papur ganol y flwyddyn diwethaf gan y golygydd yn ei adroddiad blyn-yddol. Er fod yr Eco wedi gwneud elw pur foddhaol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn bu'r codiad ym mhrys papur yn gyfrifol am i'r costau argraffu gynyddu, ac o ganlyniad lleihau'r elw. Er mwyn sicrhau na fydd yr Eco'n rhedeg i ddyled bydd yn rhaid codi 10c amdano o hyn allan.

PENDERFYNIAD PWYSIG
arall oedd cydnabod cais pobl Waunfawr a'r cylch i ymuno â'r Eco. Nid mater o ehangu'r dal-gylch yw hyn ond cais i gau'r bwlich sydd rhwng papur Dyffryn Nantlle (Lleu) a'r Eco ac i sicrhau nad oes pentref na chymdeithas yn cael ei amddifadu o wasanaeth Papur Bro. Cawn gyfle i groesawu pobl ardal Waunfawr yn y rhifyn nesaf.

Diolchodd y golygydd i swyddogion, gweithwyr, cefnogwyr a darllenwyr yr Eco. Gobeithiai'n fawr fod y papur wedi ennill mwy o ffrindiau nac o elynion ar ôl blwyddyn, a'i fod wedi adlew-

yrchu bywyd y fro yn deg a diffuant, ac y bydd am flynyddoedd eto yn bapur uchel ei barch a phendant ei farn.

Apeliwyd yn y cyfarfod blyn-yddol am fwy o gynorthwyyr. 'Roedd lle i ohebwy'r cyffredinol, cynorthwyyr i'r swyddog hysbysebu, ac i blygu'r papur. Mae'r apêl yn dal i sefyll er fod rhai wedi ymuno â'r papur o'r newydd.

Dymuna'r golygydd, drwy gyfrwng y golofn hon, eich annog unwaith eto i yrru eich newyddion i'r gohebwy'r lleol, i osod pin ar bapur a 'sgrifennu storïau, erthyglau, ysgrifau ac ati, i wneud defnydd o'r gwasanaethau mae'r Eco'n eu cynnig, megis 'Ar Werth', 'Yn Eisiau' a'r 'Dyddiadur', ac yn bennaf oll ei brynu a'i ddarllen. Hoffai hefyd gydnabod haelioni pawb sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at gostau'r Eco, a dymuna wneud yn hysbys fod bodolaeth yr Eco'n dibynnu ar yr hysbysebwy'r. Mae'r golygydd a'r pwyllgor yn diolch o galon i bawb sydd wedi hysbysebu, yn enwedig y rhai rheolaidd. Gobeithio eich bod yn eu cefnogi oherwydd ni fyddai Eco'r Wyddfa yn bod onibai amdanynt.



Gwyddom yn iawn am lawer sydd wedi eu bedyddio, neu wedi eu priodi yn y llan hon. Mae gan lawer anwyliaid yn gorwedd yn ei mynwent. Cyfeirir y llythyr hwn at bob un o'r rhain oherwydd mae eglwys Llanddeiniolen yn annwyl a'i dyfodol yn bwysig iddynt. Os gwna pob un ohonom ei ran 'rydym yn sicr o lwyddo. Pe carech roi cyfraniad gofynnwn yn garedig i chwi ei anfon at un o'r canlynol:

Y Parch. G.W.Edwards, Ficerdy Santes Helen, Penisarwaun. (Tel. Llanberis 218).

Mr. D. Harrison, 'Bakhita', Bethel (Tel Port Dinorwig 377)

Mr. W.S.Morris, 'Fachell', Llanddeiniolen. (Tel. Port Dinorwig 301).

Yr eiddoch yn bur a ffyddlon
Geraint W. Edwards (Rheithor)

W.S.Morris
D. Harrison (Wardeniaid)

ECO'R WYDDFA

RHIF 13

MAWRTH 1977

Golygydd:

Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug,

Ffôn: Caernarfon 3719

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

Belidere, Strawberry Cross,
Backford, Chester.

Annwyl Olygydd,
TORGOCH

Diddorol dros ben oedd yr
erthygl ar y Salvelinus Persii. Ond
mae yna un gwall ynddo. Dywed
yr erthygl fod y torgoch yn
claddu yng ngheg yr afon yn unig.
Ond pan oeddwn yn ifanc yng
Nghoed y Ddôl byddwn yn dal
miloedd o dorgochiaid bach tua
modfedd o hyd wrth bont Huws
Drygist (nid wyf yn gwybod ei
henw heddiw). 'Roedd y bont
yma tua phedwar ugain llath o geg
yr afon. Ni chladdant yn uwch na
hynny. 'Roedd yr afon Goch yn
ddu o fân dorgochiaid nes
cyrraedd y toriad dŵr wrth bont
Huws drygist a gallasem godi
dyrneidiau ohonynt. Hwyrach mai
yng ngheg yr afon y claddant ond
fod ceg afon Goch yn gan llath o
hyd!

Yn gywir,
W.F. Roberts
(gynt o Lanberis)

LLYTHYRAU

ARDDANGOSFA
CELF A CHREFFT
RHAI DAN ANFANTAIS

Annwyl Olygydd,
Trefnwyd yr Arddangosfa
uchod gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol ac Adran Addysg
Cyngor Sir Gwynedd. Dangoswyd
Gwaith Creadigol a Chrefft Plant
Dan Anfantaish Feddyliol, ac
oedolion dan Anfantaish Feddyliol
a Chorfforol.

Roedd Gwaith Plant Ysgolion
Pendalar Caernarfon, Ysgol Hafod
Lon, Pwllheli, Ysgol Cefni,
Llangefni, Ysgol Wern-y-Wylan,
Llandudno, Ysgol Ysbyty Bryn
Neuadd Llanfairfechan yn odidog
dros ben.

Fel y gwyddoch yn iawn mae
arlunio, gwaith crefft yn han-
fodol bwysig mewn unrhyw ysgol
— yn enwedig gyda phlant dan
anfantaish er mwyn ceisio meithrin
eu dawn greadigol, a'u
gwreiddioldeb.

Bu Canolfan Oedolion
Segontium hefyd yn dangos eu
crefft a'u doniau ac yn cystadlu
yn Sioe Amaethyddol Caernarfon
ac yn cael gwobrau.

Bu Gweithdy Manton hefyd yn
dangos gwaith metal.

Sawl gwaith yr ydym wedi pitio
gweld plentyn neu ddyn neu
ddynes mewn cadair dwy olwyn,
ond arhoswch am foment, a ydym
wedi meddwl beth a allem wneud
i'w cynorthwyo? Hyn sydd yn
bwysig.

Yn gywir,
Edward O. Thomas
Cadeirydd Clwb Methodig Eryri

YMGYRCH HAWL I WAITH
GWYNEDD

Cartref,
Ffordd yr Orsaf,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,

Hoffem, fel cyd-ysgrifenydd-
ion Ymgyrch Hawl i Waith yng
Ngwynedd, fanteisio ar golofnau
eich papur i wneud apêl ar ran yr
ymgyrch.

Fel y gwyddoch, mae'n debyg,
amcan yr ymgyrch hon yw sicrhau
i bobl Gwynedd yr hawl i ddewis
gweithio yng Ngwynedd. 'Rydym
yn ymladd dros gyflogaeth lawn
ac yn erbyn polisïau presennol y
Llywodraeth o reoli'r economi
trwy gynyddu diweithdra.

Y dôl, cyflogau isel, costau
byw uchel, gorfod gadael i chwilio
am waith — dyna ydi'n hanes ni
yng Ngwynedd. Heddiw, 'rydym
yng nghanol argyfwng ariannol
arall di-synnwyr, sydd yn ôl pob
tebyg yn mynd i ddwysáu. Ac
unwaith eto mae'r Llywodraeth
yn rhoi gwneud elw o flaen
edrych ar ôl bobl gyffredin.
Bellach, mae tua 90,000 o bobl
allan o waith yng Nghymru — dros
10% allan o waith yng Ngwynedd.
Mewn ambell i ardal mae'r ffigwr
yn nes at 20%. 'Dyda' ni ddim am
weld sefyllfa debyg i'r un a
gafwyd yn y tridegau. Felly, mae'r
ymgyrch wedi dechrau ar y gwaith
o drefnu'r rhai diwaith a'r rhai
sy'n gweithio, yn garfan unedig o
bobl sydd ddim yn fodlon derbyn
fod diffyg gwaith yn beth
anorfod. 'Rydym yn ymgyrchu i
amddiffyn swyddi ac yn mynnu
yr hawl i weithio yng Ngwynedd.

Apeliwn drwy eich papur am
gefnogaeth ariannol i'r Ymgyrch
ac hefyd am fwy fyth o
gefnogwyr. Mae cyfle yn awr i
bawb sydd am helpu'r Ymgyrch i
ymaelodi â hi. Codir tâl aelodaeth
o 20c. (10c i'r diwaith). Gan mai
ymgyrch amhleidiol yw hon mae'r
aelodaeth yn agored i bawb sy'n
cefnogi'r frwydr dros yr hawl i
weithio yng Ngwynedd waeth pa
blaid wleidyddol y mae'n ei
chefnogi.

Gellir anfon pob cyfraniad,
cais am ymaelodi, neu gais am fwy
o wybodaeth at Ysgrifennydd
Ymgyrch Hawl i Waith i'r
cyfeiriad uchod.

Yn gywir ar ran yr Ymgyrch,
Ann Beynon, Llanfairfechan
a Selwyn Williams, Llanrug
(ysgrifenyddion)

CYFRANIADAU

Llawer o ddiolch i'r rhai canlynol am
eu rhoddion gwerthfawr. (£1) — Mrs
Myfanwy Jones, 37 Bro Rhyddallt,
Llanrug; Mrs. W.A. Jones, Dalar Deg,
Llanrug; Miss A. Jones, 4 Minafon
Terrace, Llanberis; Mrs. Emma Jones,
Llangefni (gynt o Ddinorwig); Di-enw,
Llanrug; Emllyn Jones, Oakfield, Borth
y Gest.

FEL Y CEDWIR I'R OESOEDD
A DDÊL, Y GLENDID A FU

17, Tenby Drive,
Cheadle Hulme,
Cheadle,
Cheshire

Annwyl Olygydd,

A gaf i ymuno â'r dorf
fawr bellach sy'n diolch o waelod
calon i chwi a holl drefnwyr Eco'r
Wyddfa am eich misolyn diddorol
a graenus. 'Rydym ni yma yn
edrych ymlaen yn awchus amdano
er y rhifyn cyntaf, ac wedi i ni fel
teulu ei ddarlennu byddem yn
mynd ag ef i'r Capel lle byddai
amryw o'r aelodau yn aros eu tro
i'w fenthycu, ond erbyn hyn 'does
neb eisïau ein copi ni — dlm am
iddynt golli diddordeb — ond am
iddynt i gyd sicrhau eu copïau eu
hunain.

Buom fel ardaloedd yn araf i
sylweddoli'r angen am rywbeth fel
y papurau bro hyn, ond diolch i
chwi a rhai tebyg i chwi led-led
Cymru am beidio oedi'n rhy hir
nes colli o'r cof yr oll sy'n werth
ei gadw a'i drysori. Credais erioed
fod angen dweud "y stori" wrth
bobl cenhedlaeth — ac nid hanes yr
arwyr yn unig. Yn aml mae'r hyn
sy'n ymddangos yn gyffredin a di-
ramant i un genhedlaeth, o'i
ddweud yn onest yn gallu bod yn
diddorol iawn i'r genhedlaeth
nesaf.

Nid edliw, ond dweud. Dyna
gredaf yw un o'r rhesymau dros
golli Cymreictod llawer ardal — y
to hyn yn cymryd yn ganiataol
nad oedd angen dweud "y stori"
wrth y genhedlaeth iau, neu yn
waeth byth, nad oedd yn werth ei
dweud.

Gwn i'n hogiau ni bob amser
lyncu'n awchus pob stori am yr
hen amser "pan oeddach chi'n
hogan bach Mam!" ac os oedd yna
lun wedyn i brofi'r pwynt, gorau
oll.

Yn gywir,
Mair Roberts
(Mair Davies, Llanwen, Llanberis)

DEWCH I

**SIOP
THOMAS
PRITCHARD
IRONMONGER**

BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS Ffôn 206

am nwyddau a chelfi
a bob math i'r cartref

.....

Carpedi, leino, Paent
Valspar a Crown
Papur papuro, Tsieni,
Nwyddau Trydan a llawer
MWY.....

OLL AM BRISIAU
RHAD!

BARGEINION TOPDEC
bob mis



Meirionfa,
Llanberis.

Annwyl Olygydd,
Diddorol iawn oedd darllen
llythyr "R.W." yn yr Eco (Chwef.
1977).

Gresyn na fuasai y darlun yma
o'r holl ddosbarth yn gliriach.
Gwelir "R.W." yn y gornel ar y
chwith yn y top yn yr union le y
bu traul mawr arno! Cassie yr ail
lyn yr ail res, a minnau y pumed
efo Edwin fy mrawd wrth fy
mhen, a Dic Glanllyn yr wythfed
yn yr un rhes a Gwil Frank yr
8fed yn y rhes ucha.

Ni chlywsom sôn i'r arian-byw
yn y lab wneud niwed i neb.

Pwy tybed oedd yr athro ieuanc
ar y pryd Mr. Emrys Haddon
Roberts ynteu Mr. Stevens?
Byddem yn mwynhau ein hunain
cymaint yn y lab yn gwneud
arbrofion fel na allaf fi yn
bersonol gofio y digwyddiad yma
ar ei ben ei hun — henaint
hwyrach?

Ein hathro yma oedd Mr.
Gwilym Jones.

Sonia "R.W." am Erasmus
hefyd — hwyrach ei fod yn
chware triwant pan dynnwyd y
llun!

Yn gywir, Dilys Baylis

DINORWIG

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian ddiolch o galon am bob caredigrwydd a dderbyniodd oddi ar law y meddygon a staff Ysbyty Bryn Seiont tra yno'n ddiweddar, hefyd am bob caredigrwydd gan y cysylltiadau teuluol a chyfeillion tra yn yr Ysbyty ac wedi dod adref o'r Ysbyty.

YMDDIHEURIAD

Ymddiheurir am adael allan trwy amryfusedd o adroddiad Cyfarfod Gwynnos Rhag. 31 1976 enwau'r personau canlynol, Mr. Kevin Fleming; Mrs. Dilys Williams; Mrs. H.M. Roberts; Mrs. Betty Peris Roberts; Mrs. Jennie Williams; Miss Iona Williams.

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL

Nos Iau, Chwefror 3ydd yn Ffestri Dinorwig M.C. cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr. John D. Evans, Clwt-y-bont am gymeriadau yn ardal Dinorwig. Hefyd cafwyd adroddiadau gan ei ferch Mrs. Helen Jones. Llywyddwyd gan Mr. Eddie W. Lewis. Talwyd y diolchiadau gan Mr. R.H. Williams Yn y Ganolfan nos Iau, Chwefror 17eg bu cyfarfod olaf y tymor. Trefnwyd rhaglen o "Frethyn Cartref", gyda doniau lleol yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Cafwyd eitemau amrywiol gan Mrs. Katie Griffith; Mri. Stephen a Kevin Jones; Mri. Evan B. Roberts a Humphrey Williams; Mrs. Betty P. Roberts; Mrs. Jennie Williams; Misses Annette B. Roberts; Olwen B. Roberts a Marina B. Roberts; Mrs. H.M. Roberts; Mri. David L. Hughes a Robert E. Williams. Darllenwyd penillion a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur gan Mr. John Roberts.

Yn ystod y cyfarfod cyflwynodd y Llywydd Mr. Eddie W. Lewis rodd o lamp drydan o lechfaen ar ffurf telyn i'r Parch. Ifor L. Williams (B) Bangor, fel gwerthfawrogiad yr aelodau o'i gyfraniad i'r Gymdeithas, ac ar achlysur dathlu ohono ei briodas arian, a hefyd 25 mlynedd yn y weinidogaeth. Diolchodd Mr. Williams yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd at y rhodd.

Trefnwyd lluniaeth ysgafn gan y pwyllgor. Llywyddwyd gweithrediadau'r noson gan Lywydd y Gymdeithas, Mr. Eddie W. Lewis. Talwyd y diolchiadau gan Mr. Hugh Thomas.

Etholwyd pwyllgor newydd gogyfer â'r tymor nesaf. Y swyddogion fydd: Llywydd — Mr. Robert E. Williams, 12 Maes Eilian; Trysorydd — Mrs. H.M. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Ysgrifennydd — Mr. David L. Hughes, 2 Maes Eilian.

O'R YSBYTY A CHYDYMDEIMLAD

Da gweld Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian wedi dod adref o Ysbyty Bryn Seiont. Cydymdeimlir ag ef yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer Mrs. Annie Jones, 2 Tai Capel Deiniolen.

DAMWAIN

Cyfarfu Mr. Dylan Griffith, Foel Cottage â damwain i'w goes gan ei thorri. Dymunir gwellhad buan

CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

FLYNYDDOEDD lawer yn ôl, ni ddychmygai gwerin Eryri ymweld â'r meddyg os byddai unrhyw afiechyd arnynt. Yn hytrach byddai ganddynt feddyginiaethau a drosglwyddwyd dros y canrifoedd at wella popeth o'r eryr at dorcalon a gwynt.

Elfen gref y meddyginiaethau gwerin Eryri yw dŵr o ffynhonnau lleol. Credid fod dŵr y gwahanol ffynhonnau'n medru gwella popeth — y parlys a ffitiau (Ffynnon Beuno, Clynnog), dafad wyllt (Ffynnon Gelli'r Mynach, Capel Curig), defaid (Ffynnon Faglan, Llanfaglan), y llygaid (Ffynhonnau'r Cenin, Cwm Pennant), plant nychlyd (Ffynnon Wyddelan, Dolwyddelan), y croen a chrydcymalau (Ffynnon Garmon, Waunfawr). 'Roedd un ffynnon, sef Ffynnon Fair, Beddgelert, a ddefnyddid gan fyneich y priordy yno, yr honnid y medrai wella POB afiechyd.

Fodd bynnag, nid gwella'n unig a wnai pob ffynnon. Medrai ambell un ragfynegi'r dyfodol i'r rhai a wyddai sut i ddarllen yr arwyddion. Er enghraifft, dyna Ffynnon Gelynin yn ardal Nant Conwy. Os golchid dillad y claf yn nŵr y ffynnon ac os suddent i'w gwaelod wedyn, golygai fod y truan hwnnw am farw. Ar y llaw arall, arferai dŵr Ffynnon Aelhaearn (Llanaelhaearn) 'chwerthin', neu godi'n drochion, ac os medrid plymio iddo'r adeg honno, sicrheid iachâd. Arferai merched ifanc Llangybi fynd at Ffynnon Gybi i ganfod os oedd eu cariadon yn ffyddlon. Arferent osod eu hancesi poced ar wyneb dŵr y ffynnon i ganfod hyn. Os symudai'r hances i'r gogledd, 'roedd yn arwydd drwg ond os symudai i'r de 'roedd popeth yn iawn.

Mae nifer o ffynhonnau fel hyn yn ardal Yr Eco hefyd. Yr enwocaf, yn ddiau, yw Ffynnon Peris, y cyfeiriais ati yn Rhifyn Rhagfyr. Gyda llaw, 'roedd sliwen yn Ffynnon Gybi hithau a chredid

ei bod yn beth lwcus iawn sefyll yn y ffynnon a gadael iddi gordeddu am y coesau. Daliai llawer fod rhin y ffynnon wedi gwano'n arw ar ôl i rywun ddwyn swyn y sliwen! Ffynnon rinweddol arall yn yr ardal yw Ffynnon Deiniolen, tua milltir oddi wrth hen eglwys Llanddeiniolen. Cyrchai llawer yno gynt i gael iachâd oddi wrth grydcymalau. Ffynnon arall hynod iawn yw Ffynnon Moel Rhiwen yr hon, yn ôl traddodiad, a boera i wyneb drwgweithredwr.

Er sicrhau iachâd yn aml, rhaid oedd rhoi rywbeth yn y ffynnon neu'n agos iddi. Yn aml iawn clymid darnau o gadachau am frigau. Cyfeirir at yr arferiad yma yn Rhyd Ddu yn y ganrif ddiwethaf. Dro arall teflid pin wedi plygu i'r ffynnon, yn arbennig pan yn cael ymadael â defaid. Tua'r flwyddyn 1840 glanhawyd Ffynnon Faglan a chafwyd ynddi lond dwy ddysgl fawr o binnau, pob un wedi plygu!

YSGOL SUL 1923



iddo.

YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan i Mr. Owen M. Jones, 3 Bro Elidir sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

I'R U.D.A. YM 1923

Tynnwyd y darlun uchod o ddosbarth Ysgol Sul y diweddar Mr. John Price Morris yn Eglwys Sardis ar achlysur ymadawiad Mr. Idris Jones, Frondeg i'r 'Merica ym 1923, ac erbyn heddiw Mr. Jones — sy'n dal i fyw'n yr UDA

— yw'r unig un ar ôl o'r dosbarth. Rhes ôl — Mri. Morris Evans, Gwynfryn; Myrddin Jones, Tŷ Capel; Idris Jones, Frondeg; Glyn Williams, Bryn Goleu; W. Orwig Jones, Tŷ Capel; Rhes flaen: Mri. Dal Evans, Gwynfryn; John Price Morris, Minffordd; R. Llewelyn Griffith, Pencraig.

Gyda llaw bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr yr Eco wybod fod Sardis yn cael ei gyfrif y capel daearyddol uchaf yng Nghymru. (Llun trwy ganiatâd Mrs. Catherine Jane Jones, 26 Hafod Oleu, Deiniolen).

CEUNANT

PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwn â Mr. Bernard Smith a'r teulu, Pant Hyfryd a farwolaeth ei fam yn Walsall.

GWAELEDD

Da gennym ddeall fod Mr. Ifan Parry Bodafon yn gwella. Hyderwn y bydd yn ei lawm iechyd eto'n fuan.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Balgen

ÔL-RIFYNNAU'R
ECO

MAE yna ychydig o ôl-rifynnau o Eco'r Wyddfa ar gael. Beth am wneud casgliad cyflawn o ôl-rifynnau'r flwyddyn? Gyrrwch at y Golygydd, Gwên-y-Wawr, Llanrug. Pris 50c am 12 rhifyn.

STORFA

Mace S.&E. Jones Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWR

FFRWYTHAU

(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA

LLANRUG

FFÔN

CAERNARFON 2790

LLANRUG

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr nos Fwyrth 10fed o Chwefror yn y Sefydliad Coffa gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair.

Rhoddodd Mrs. Nansi Lovatt hanes ei gwaith yn profi clyw plant ysgol. Diolchwyd iddi gan Miss M. Lloyd Williams.

Rhoddodd Mrs. Mary Roberts adroddiad o Bwyllgor Arfon. Croesawodd Mrs. Roberts aelodau a fu'n wael, ac anfonwyd cofion at y rhai sy'n dal yn wael yn eu cartref ac yn yr ysbytai. Gwnaed trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf a gynhelir ar yr 8fed o Fawrth yn yr Ysgol Gynradd, pan ddisgwylir Cangen Penygroes yno. Y gwestwagedd oedd Mrs. Beryl Thomas, Mrs. Carrie Owen, Mrs. L. Jones a Mrs. Myfi Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs. M. Evans, Lloc.

MR. HARRI GWYNN

Croeso'n ôl i Harri Gwynn o'r ysbyty ym Mangor. Deallwn ei fod yn gwella.

CYMDEITHAS UNDEBOL BRYNGWYN, HERMON, PONTRHYTHALLT A TANYCOED

Nos Fawrth bu'r Rhingyll Selwyn Jones yn dangos ffilm ar Atal Troseddau, gan roi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau yn ymwneud â'r troseddau. Diolchwyd iddo gan Y Llywydd Miss. M. Humphreys. Ail-etholwyd y Swyddogion am dymor pellach sef Llywydd: Miss. M. Humphreys, Cadnant; Trysorydd: Mr. Ifor Williams, Gwelfryn; Ysgrifenyddes: Mrs. E. Whiteside Thomas, Dolwar. Pasiwyd ein bod yn cael Taith Hanesyddol yn ystod mis Mehefin. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 1af pryd y dethlir Gŵyl Ddewi yn swpera ym Mwyty Gwynedd Llanberis, gyda Mr. John Morris Aberdaron yn wr gwadd.

UNDEB Y MAMAU

Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn y Rheithordy yn ddiweddar o dan lywyddiaeth Mrs. Williams. Arweiniwyd y defosiwn gan y Rheithor. Y wraig wadd oedd Miss C.J. Roberts, Y Fron a dangosodd waith llaw oedd yn ei meddiant. Miss Roberts hefyd oedd yn gyfrifol am y te. Diolchwyd iddi gan nifer o'r aelodau.

GWAELEDD

Balch ydym o fedru cofnodi fod Mrs. M. Griffiths, Orwig House a Mrs. R.J. Jones, Lyndale yn gwella yn foddhaol ar ôl triniaeth lawfeddygol ac y mae'r ddwy wedi cael dychwelyd adref. Eiddunwn lwyd feddyginiaeth i Miss Gwyneth Jones, 27 Glanmoelyn hefyd.

CLWB BLODAU'R GRUG

Bu cyfarfod Blynnyddol Clwb Blo dau'r Grug yn ddiweddar. Cawsom wybod gan y trysorydd fod y sefyllfa ariannol yn foddhaol iawn. Balch oeddym o weld Mrs. Williams yn ei hól ar ôl cyfnod o waeledd. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd

— Y Parch. D. Gwynfor Williams; Is-gadeirydd — Mr. Jones Evans; Ysgrifennydd — Mr. Burrows. Arfon Terrace; Trysorydd — Mrs. E. Williams, Tremallt. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ac i'r aelodau am eu teyrngarwch. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, Mawrth 10fed am 2.00 p.m.

YSGOL FEITHRIN

Yn eisiau athrawes i ofalu am ysgol Feithrin Glanmoelyn i ddechrau Tymor yr Haf. Ceisiadau i law erbyn Mawrth 18. Manylion ymhellach gan Mrs. E. Jones 60 Glanffynnon. Ffôn: Caernarfon 4669.

Y BAND

Cynhaliwyd Pwyllgor Cyffredinol y Band nos Fawrth 22 gyda Mr. Charles W. Jones yn y gadair. Darllenwyd mantolen y flwyddyn gan y trysorydd Mr. R. Jones a Mr. Neville Thomas Ysgrifennydd. Swyddogion am y flwyddyn 1977 fydd — Cadeirydd: Mr. Jim Jones; Is-gadeirydd: Mr. Myrfyn Ll. Jones; Ysgrifennydd Cyffredinol: Mr. Raymond Ll. Jones; Trysorydd: Mr. Richard Jones; Meistr y Band: Mr. Boelyn Colwyn Bay; Dirpwy Feistr: Mr. Owen Jones; Swyddog Offerynnau: Mr. Neville Thomas; Librarian: Mr. John Williams; Cysylltydd y Wasg: Mrs. M. Roberts; Aelodau'r Pwyllgor: Mr. Terry Ll. Jones; Mrs. Ceinwen Roberts; Mrs. Burrows; Miss Meirwen G. Roberts; Mrs. M. Lewis; Mrs. Joyce Jones; Mr. Alwyn Griffiths; Mr. Arwel Jones; Mr. Arthur Jones; Mr. Charles W. Jones; Mr. Clifford Williams; Mr. John W. Griffiths, Mrs. Margaret Jones; Mr. John Rowlands; Mr. Arwyn Roberts. Llywydd Anrhydeddus: Miss Patten, Pant Afon gynt. Diolchwyd i'r holl Bwyllgor a'r cyn-swyddogion gan Miss Meirwen Roberts a Mr. John Williams. Penderfynwyd cael cyngerdd ar Ebrill 21 yn Ysgol Brynrefail.

Daeth newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mr. Bob Pritchard, Stoke-on-Trent (Bob Penllel gynt) a fu yn aelod ffyddlon o Fand Llanrug am flynyddoedd. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs. Alice Pritchard, Kenneth a Brenda a'i chwiorydd yn eu profedigaeth.

CLWB IEUENCTID

Ar nos Iau Mawrth 31 bydd y Clwb Ieuenctid yn cynnal noson goffi. i orffen y tymor yn Ysgol Glanmoelyn. Croesewir cyfraniadau tuag at y byrddau.

HEL PAPUR

Bydd Mr. Hefin Jones, Pant Mwyn a'r plant yn casglu papurau o amgylch y pentref ddydd Sadwrn Mawrth 5ed gan gychwyn am 10 o'r gloch. Bydd yn ddiolchgar os rhydd pawb eu papurau y tu allan i'r drws. Drwg ganddo fethu rhai tai y tro diwethaf. Bydd yr arian a dderbynnir am y papur yn mynd i gronfa datblygu Pwll Moelyn fel cae chwarae.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb sydd yn eu cynorthwyo.

Y FERCH GYNTAF

Pregethodd Mrs. Mary Lloyd Williams ym mhulpu Capel Newydd Seilo Caernarfon ddydd Sul Ionawr 30ain eleni. Mrs. Williams yw'r ferch gyntaf i bregethu yn Seilo Newydd.

NEWID WYTHNOS CARNIFAL

Oherwydd mai Gŵyl y Banc fydd Mehefin 6ed a'r 7ed eleni (wythnos arferol y Carnifal) penderfynwyd ei gohirio am wythnos. **Mehefin 12 — 19 fydd y dyddiad newydd.**

FFILMAU

Nos Lun Chwefror 7ed gwahoddwyd Pwyllgor y Carnifal i Glwb Codi Pwysau Llanrug. Dangoswyd Ffilm o ddechreuad y Clwb a'r trawsnewid o fodur bychan i adeilad cyfleus y Clwb heddiw, a gwblhawyd gan ychydig aelodau a chyfeillion. Hefyd dangoswyd ffilm liw o Wythnos Garnifal Llanrug 1976, wedi ei threfnu a'i chynhyrchu gan Mr. Ieuan Owen a Mr. Glyn Jones, gyda Mr. Iwan Rees yn adrodd yr hanes. Cafwyd Cartŵn gan Mr. John Davies a'r teipydd Miss Margaret Roberts, gyda'r oll yn deilwng o ganmoliaeth uchel. Darparwyd gwledd gan Mrs. Jones, Bryn Awel a Mrs. Horman gyda Mrs. Dora Jones yn cynorthwyo. Talwyd y diolchiadau gan ysgrifennydd a thrysorydd y pwyllgor.

GOBEITHLU CAPEL MAWR

Gan fod gofod yr Eco mor brin a nifer y plant sy'n mynychu'r Gobeithlu yng Nghapel Mawr mor uchel mae'n amhosib cynnwys eu henwau i gyd dros gyfnod o fis. Mae pawb bron yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gobeithlu ac mae diolch yr ardal yn fawr i'r Parch a Mrs. W.O. Roberts am ymgymryd a'r gwaith hwn o wythnos i wythnos. Gwerthfawrogi'r gwaith cyfeillion eraill hefyd, sef Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel a Mr. John Williams, Gweledfa.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR

Ar nos Iau, Ionawr 20fed, cafwyd noson ddiddorol ac adeiladol iawn yng nghwmni Mr. Gwilym Rees Parry, Morannedd a Mr. Kenneth Morris o Bencaenewydd. Llywyddwyd y noson gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel. Diolchwyd am noson i'w chofio gan y Parch. W. O. Roberts a Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel.

Ar nos Iau, Chwefror 17 croesawyd un o blant yr eglwys yn ôl i roi sgwrs. "O eira i eira" oedd testun Mr. Geraint Huws Roberts a rhoddodd hanes ei arhosiad yn y Swistir fel athro. Siaradwyd ymhellach gan Miss Meirwen Glyn Roberts, Bryn Moelyn a Mr. William Ellis Owen, Bryn Maen. Llywyddwyd gan Mr. J. Wyn Owen, Llain Delyn yn absenoldeb Mr. Alfred Parry, Bryn Heli. Y cyfeilydd oedd Mrs. C. Roberts. Diolchwyd gan Mrs. W. O. Roberts, Llys Eiddon a Mrs. T. Evans, Lloc.

Cafwyd swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Marina ar Fawrth 1af.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR

Nos Iau, Chwefror 3 am 7 o'r gloch cafwyd noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd. Anfonwyd cofion at y

chwiorydd oedd yn wael ac eraill oedd yn methu dod, a rhai a anfonodd nwyddau ac arian at y Gymdeithas. Cafwyd adroddiad y Trysorydd, Mrs. Jones, Owen, a phasiwyd i roi rhodd i Drysorydd yr eglwys at y gwaith. Diolchodd y llywydd i'r swyddogion am eu gwaith ar hyd y flwyddyn ac i'r holl chwiorydd am eu ffyddlondeb. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. O. Llewelyn, Pant Afon Bach a Mrs. N. Lovatt, Brwynog. Llywyddwyd gan Mrs. N. Roberts, Llys Eiddon.



NOS Wener diwethaf yng Ngorsaf Dân Llanberis cyflwynwyd cloc trydan i H.A. Roberts, Maes Padarn ar ôl iddo gwblhau pum mlynedd ar hugain o wasanaeth gwirfoddol gyda'r Frigâd Dân. Dechreuodd yn 1952 pan agorwyd yr Orsaf bresennol ym Maes Padarn. O 'hen griw' gwreiddiol y gwasanaeth tân yn Llanberis mae tri arall ar ôl gyda dros bum mlynedd ar hugain o wasanaeth, sef William Roberts, Stryd Goodman, O.A. Jones, Llainwen Uchaf a Gruffydd Owen, Maes Padarn. Mae dyled yr ardal yn fawr iddynt.

CYNGERDD MAWREDDOG

Dafydd Iwan a Hefin Elis

*Edward H. Dafis gynt
India Roc rwan*

Parti Meibion Dwyfor

*(unwawdwyr, deuwawdwyr,
adroddwyr, digrifwyr
a chôr meibion)*

Plant Ysgol Llanberis

Amryddawn doniau lleol

Arweinydd—

Eurig Wyn

(BBC gynt)

**7.30 Nos Iau, Mawrth 24ain
yn Ysgol Brynrefail, Llanrug**

Ticedi 40c/25c

**i'w cael yn 'Cartref', Ffordd
yr Orsaf, Llanrug (Ffôn:
Caernarfon 3577)**

*Elw at ymgynghraffau i Waith
Gwynedd*

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU

Ar nos Sul olaf mis Ionawr cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig o Weddi i aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel. Cymerodd y ffurf o wasanaeth teuluol, ac ymunwyd yn y gwasanaeth gan gynulleidfa Eglwys Sant Mihangel. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a darllenwyd y Llithoedd gan Mrs. J.E. Watkins, Dolwen a Mrs. L. Orritt, Morannedd ac arweiniwyd y gweddïau gan Mrs. D. Pierce, Glan'rafon a Mrs. D.G. Williams y Rheithordy. Yr organydd oedd Miss C. Hughes, Pool Street. Cyfarfu yr aelodau yn ysgol Cwm-y-glo ym mis Chwefror i wrando ar Mrs. J.E. Watkins yn rhoi hanes ei thaith i wlad Groeg a dangoswyd sleidiau o Athen, Delphi a Chorinth. Darparwyd te gan Mrs. Jones 24 Dolafon a Mrs. Jones Snowdon Hotel. Diolchwyd gan amryw o'r aelodau. Arweiniwyd y defosiwn gan y Rheithor.

GWAELEDD

Da ydyw gallu dweud fod Mrs. Jones 24 Dolafon yn gwella yn foddhaol ar ôl triniaeth mewn ysbyty a bod Mr. T. Cawthorpe yntau hefyd yn gwella. Mae amryw o'r pentref wedi bod yn wael ers tro - Mrs. K. Owen, Isfryn, Mrs. M.E. Hughes, Craig-ydon, Mrs. Mair Williams, Elidir View, Mr. Richard Jones, 11 Dolafon, a Mr. Hywel Williams, Nant Forgan. Gyda'n cofion atoch eiddunwn lwyr wellhad i chwi i gyd.

MEWN YSBYTY

Mae Mrs. Nan Rowlands, Bodafon yn ysbyty Môn ac Arfon. Ein cofion ati a'n dymuniadau da iddi, a brysied adref.

LLWYDDIANT

Llawenhawn yn llwyddiant "Michaelmas" ci Labrador ieuanc Mrs. Cheers, Mur Moch. Daeth yn gyntaf yn ei ddosbarth fel nofis (novice) ac yn ail yn adran y rhai iau yn siou gŵn enwog Crufts Llundain. Pob lwc iddo eto i'r dyfodol.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlir â Miss Greenwood Glenholme ar farwolaeth ei chwaer ac a Mrs. E. Williams, Pantafon ar farwolaeth ei brawd, Mr. Vaughan Roberts, Llanberis, hefyd Mrs. L. Phillips 3 Groeslon ar farwolaeth ei chwaer yn West Bromwich.

DOSBARTH PYSGOTA

O dan nawdd Cymdeithas Genweirwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni, cynhelir dosbarth bob nos Fawrth yn yr ysgol, ac mae 15 wedi ymaelodi. Dan hyfforddiant Mr. Aled Evans, Cwm-y-Glo a Mr. Hugh Williams, Llanberis, fe'u dysgir sut i gawio pluf pysgota. Yr wythnos ddiwethaf 'roedd aelodau dosbarthiadau o Gaernarfon a Phen-y-groes yn bresennol pryd y dangoswyd ffilmiau ar gelfyddyd pysgota. Gobeithir dysgu'r rhai ifanc i gawio pluf a defnyddio genwair, ac yn y dyfodol agos bwriedir mynd â hwy allan ar Lyn Cwellyn er cael gwers ymarferol ar sut i daflu gyda genwair.

Enillodd Mr. Hugh Williams Darian y WWFA a Chwpan Cwellyn am 1976, ac enillodd Mr. Aled Evans, Gwpan Campwriaeth 1976 a gyflwynwyd iddynt gan Mr. Dafydd Wigley AS. yn eu cinio blyneddol ym Mhlas Tan Dinas. Mae'r ddau wedi cynrychioli'r Gymdeithas yng Nghampwriaeth Cymru am flynyddoedd a bu Mr. Hugh Williams yn cynrychioli Cymru mewn gornest Ryngwladol yn yr Alban.

MARWOLAETH

Gofid yw cyhoeddi y tro hwn farwolaeth un o blant y Cwm, sef Mrs. Margaret Clark oedd wedi ymgartrefu yn Lerpwl ers amser y rhyfel. Bu farw mewn ysbyty yn Halstead, Essex, wedi derbyn triniaeth lawfeddygol fawr yn

Broadgreen, Lerpwl ychydig wythnosau'n flaenorol. Daethpwyd â'i gweddillion i Amlosgfa Calchester ac yna daethpwyd â'i llwch i Amlosgfa Anfield, Lerpwl lle'i gwasgarwyd yn ymyl ei phriod Mr. Albert Clark.

Y galarwyr oedd Mr. a Mrs. Christopher Deverenx, merch a mab-yng-nghyfraith; Louise a Natalie - wyresau, Mrs. a Mrs. Edward O. Thomas, Mr. a Mrs. Glyndwr Thomas, a Mr. a Mrs. Richard John Thomas, brodyr a chwiorydd yng nghyfraith a llawer o berthnasau eraill, ffrindiau a chymdogion.

Er iddi dreulio amser maith yn Lerpwl, ni anghofiodd r'hen Gwm. Byddai yn holi hynt a helynt hwn a llall bob tro y deuai i'r cyfeiriad yma. Roedd ganddi nifer luosog o ffrindiau yn Cwm, a'r ardaloedd cyfagos, a phawb yn hoff ohoni, oherwydd un hwyliog

dros ben oedd Megan.

Fe gefais golled enbyd
Fis Ionawr 'r flwyddyn hon
Fe gollais Megan annwyl
Fy unig chwaer oedd hon.
Ond eto ymddiriedaf,
Yn yr addewid fawr
Sy'n tynnu plant y tonau
Yn iach o'r cystudd mawr.

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, Chwefror 16, y Parch. Gareth Maelor, Bontnewydd oedd y gŵr gwadd. Ei destun ef oedd "Cymeriadau â rhywbeth allan o'r cyffredin ynddynt a gyfarfu yn ystod ei fywyd." Rhoddwyd diolchiadau iddo gan Miss Mat Pritchard ac eiliwyd gan Mrs. Katie Watkins. Y gwestwagedd oedd Mrs. Glenys Pritchard a Miss E. Hughes ac enillwyd y raffl roddwyd ganddynt gan Mrs. Mair Williams.

CARTREFFI NEWYDD £8825

Ar ein datblygiad newydd ym MRYN MOELYN LLANRUG

★ gallwn eich
helpu i geisio
sicrhau morgais


★ gwarant N.H.B.C.

★ gwres canolog




cymrodwr
hiraethog

Y Gelli Llansannan Clwyd
Ffôn Llansannan 653
& Llanynys 236




arthur

Tŷ ar wahân
3 ystafell wely



rhys Bwthyn 2 ystafell wely



glyndwr

Un-o-ddau
2 ystafell wely

Dymunaf gael rhagor o fanylion ar yr uchod

Enw _____

Cyfeiriad _____

Yn ddibynnol ar Ganiatâd Cynllunio

LLANBERIS

CYNGOR EGLWYSI

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod ar y trydydd nos Fawrth o bob mis — am y tymor yma — yn Festri Nant Padarn.

Penderfynwyd cael seiat bob yn ail â chyfarfod gweddi a gobeithir cael trafodaeth ar lyfr Elfed ap Nefydd Roberts ar "Pwy yw Duw" (Cyfres Cymru i Grist) a chael agoriad ar y penawdau fel a ganlyn: (1) Credu yn Nuw — Y Parch George Brewer. (2) Duw y Tad — Y Parch. H. John Hughes. (3) Duw y Mab — Canon Alun Jones. (4) Duw yr Ysbryd Glan — Y Tad McNamarra. (5) Y Drindod Sanctaidd — Y Parch. John Owen.

Cynhelir y seiat nesaf nos Fawrth, Mawrth 15ed, 1977 dan arweiniad Y Parch. George Brewer

CYMDEITHAS LENYDDOL (Eglwysi M.C.)

Ddechrau'r mis caed sgwrs a ffilmiau gan y Parch. O.J. Pritchard, Llanfairfechan ar ei ymweliad â'r Wladfa (Patagonia) y Gwanwyn diwethaf. Cododd awydd mawr ar lawer i gael mynd yno am dro. Mrs. J. Maxwell oedd y llywydd, a thalwyd y diolch gan Hugh R. Jones. Ddiwedd y mis caed Seiat Holi o dan lywyddiaeth y gweinidog gyda Mrs. J.W. Williams (Capel Coch), Gwynfor Williams (Gorffwysfa) a Hugh R. Jones (Preswylfa) ar y panel yn trafod llw o gwestiynau hen a newydd, trwm ac ysgafn. Diolchwyd i'r panel a'r rhai a anfonodd gwestiynau gan William Jones a Mrs. Dilys Baylis. Bydd y cyfarfod olaf am y tymor, sef y cinio blynyddol, yn yr Erw Fair am 7.30 nos Lun, 7fed Mawrth.

ADRAN YR URDD (Pentre)

Cynhaliwyd noson goffi ac arwerthiant llwyddiannus iawn yn Festri Gorffwysfa ddechrau'r mis. Cafwyd cefnogaeth anrhydeddus a gwnaed elw sylweddol. Diolchir i bawb a roes eu cefnogaeth mewn GWAELEDD

Y mae Mrs. Mair Eluned Owen yn yr ysbyty. Dymunir yn dda iddi am adferiad llwyr a buan. Daeth Mrs. Bert Jones, Gerafon adref o'r ysbyty yn Lerpwl wedi cael triniaeth lawfeddygol lwyddiannus. Mae amryw yn cwyno yn eu cartrefi, a'r un yw ein dymuniad iddynt hwy.

COLLED

Yn hwyr nos Sul bu farw Bert Jones, Gerafon yn 63 oed wedi blynyddoedd o frwydro yn erbyn llesgedd. Ni chlywyd ef yn cwyno erioed. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod, y plant, a'r wyrion yn eu galar amdano.

YR AELWYD

Bu tîm pêl-droed yr Aelwyd yn llwyddiannus yn y rownd gyntaf o Gwpan Pantyfedwen, cwpan a enillwyd ganddynt y llynedd. Byddant yn chwarae Hen Golwyn (Gorllewin Clwyd) yn y rownd nesaf.

DWY GOLLED

Yn ddiweddar, collodd Eglwys Capel Coch ddau o'u haelodau yn sydyn o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd, Owen Vaughan Roberts, 2 Stryd y Ceunant, a Nêst

Roberts (Miss), 2 Gerafon, un yn 71 oed a'r llall yn 76 oed. Roedd Vaughan yn gymeriad ar ei ben ei hun, ac yn gymeriad annwyl, hwyliog a difyr ei sgwrs. Bydd yn chwith ar ei ôl. Un o hen aelodau'r Capel Coch oedd Nest Roberts. Roedd yn un o'r ffyddloniaid hyd y blynyddoedd diwethaf hyn pan aeth yn llesg. Bu nifer o gyfeillion yn fawr eu gofal ohoni. Estynnir cydymdeimlad Eglwys Capel Coch a'r ardal â'r teuluoedd yn eu hiraeth amdanynt.

PRIODAS

Dymuniadau gorau'r ardal i Dilys Margaret Phillips, merch Mr. a Mrs. Arfon Phillips, ac Arwyn Hefin Roberts, Rhosgadfan ar achlysur eu priodas. (Gweler newyddion Nant Peris).

PLAID CYMRU

Cynhaliwyd Cwis Llyfrau Cymraeg yn y Ganolfan nos lau, Chwefror 10fed gyda phanel o gangen Llanberis a Nant Peris. Yr holwr oedd Mr. Hywel Roberts Llyfrgellydd Caernarfon. Estynnwyd croeso cynnes i Mr. Eurig Wyn, Waunfawr, sydd yn Drefnydd llawn-amser i Mr. Dafydd Wigley, A.S.

Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Dolbadarn ar Fawrth 12fed. Enwau i Mrs. Ann Pritchard, Madryn, Llanberis erbyn Mawrth 4ydd. (Aelodau yn unig).

CLWB METHEDIG ERYRI

Ar 14eg Chwefror aeth y clwb uchod i Arddangosfa Crefft Pobl Dan Anfantaidd yn Oriel Pendeitch Caernarfon. Mwynhaodd pob un o'r aelodau eu hunain yn fawr iawn. Yn enwedig gan fod gan y clwb bethau eu hunain yno.

Ar ôl yr ymweliad cawsant luniaeth ysgafn yn Swyddfa'r Gymdeithas Gymdeithasol. Y gwesteion oedd Miss Marion Hughes, Gweithiwr Cymdeithasol; Mrs. Helen Roberts, Hyfforddwraig gyda'r methodig a gwnaethpwyd y danteithion gan Mrs. Selwyn Williams, gwraig Dirprwy Swyddog Rhanbarth Arfon.



PRIODAS

Yng Nghapel Gorffwysfa M.C. Llanberis, Ionawr 29ain bu priodas Mr. Thomas Kelvin Jones mab Mr. R.V. Jones, Maenol, Pen-y-bryn, Caernarfon, a'r diweddar Mrs. Liddy Jones, 22 Glanffynnon, Llanrug a Miss Ann Pritchard Jones, merch Mr. a Mrs. Bert Jones, Garfield House, 30 Stryd Fawr, Llanberis.

Gwasanaethwyd gan y Parch. John Owen, BA., BD., a'r organyddes oedd Mrs. Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton Llanberis.

Hoffai'r ddau ddiolch i'r teulu a'r ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd.

MARWOLAETH

Yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar Ionawr 25ain 1977 bu farw Mr. Cecil Jones, 21 Ffordd Ty Du Llanberis gan adael gweddwr, brodyr, chwaer a llu o gyfeillion i alaru ar ei ôl. Bu'r angladd cyhoeddus yn St. Padarn ac wedyn yn Amlosgfa Bangor a rhoed ei lwch i orffwys ym mynwent St. Michael, Llanrug.

Gofalwr Clwb Golff Caernarfon oedd ers rhai blynyddoedd ac yn fawr ei barch yno.

Roedd yn ysgrifennydd Dosbarth Arlunio Llanberis.

Gŵr tawel a di-rodres

Parod iawn ei gymwynas,

Cartref, gwaith a dosbarth celfyddyd

Dyna oedd ei holl fywyd.

BATHODYN
PRESENOLDEB
LLAWN
1910-13



YM MHLAS Pengwaith Llanberis mae Mrs. Jennie Evans (gynt o Cwm) yn trigo ar hyn o bryd, ar ôl treulio blynyddoedd yn Birkinhead. Merch y diweddar Evan Williams Bwlch yw hi. Meddyliodd Mrs. Evans y byddai gan ddarllenwyr yr Eco ddi-ddordeb mewn gweld y bathodyn yma a dderbyniodd yn 1910-13 am bresenoldeb llawn yn Ysgol Cwm-y-glo. Byddai'n syniad da i'r Pwyllgor Addysg presennol feddwl am wobrwyo plant heddiw am fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Ysgwn i fyddai rhywun yn deilwng?

DYN YR UNDEB



Llongyfarchiadau i Tom Jones ar ei apwyntiad yn ddiweddar fel Ysgrifennydd Rhanbarth Gwynedd o Undeb Trafnidiaeth a Gweithwyr Cyffredinol (TGWU). Bydd yn cychwyn ar ei waith yn swyddogol ymhen pythefnos. Dechreuodd ei ddiddordeb yn yr undeb pan weithiai yn Ferodo lle bu ar un cyfnod yn gadeirydd y gangen. Yn 1974 dewiswyd ef i gynrychioli Cymru mewn Cynhadledd Ryngwladol yn Rhydychen yn trafod 'Diwydiant mewn Cymdeithas'. Mae Tom sy'n fab i Mr a Mrs T.H. Jones, Bethel (Twm Bethel) yn byw gyda'i wraig Ann a'u mab Jason yn 34 Stryd Newton, Llanberis.

**GELLWCH
YMDDIRIED
YN
JOHN
TREVOR
Garej Hafod
Llanrug
am geir newydd
ac ail law rhagorol**



Cadw Gwenyn

gan
ISLWYN WILLIAMS
Godre'r Coed, Brynrefail

"Fy mab, bwyta fel, canys da yw; a'r dil mêl, canys melys yw i'th enau." Dyna gyngor Solomon a gyfrifid y doethaf o frenhinoedd yr Hen Destament. Safai mêl ers oesau fel arwydd pendant o'r melystra pennaf. I'r Iddew "gwlad yn llifeirio o laeth a mêl" oedd gwlad Canaan.

Hyd nes y cafwyd siwgr o gorsen, mêl oedd yr unig gyfrwng a ddefnyddid i felysu bwyd. Nid yw hyn yn rhyfedd o gwbl, gan fod tua thri chwarter unrhyw swm arbennig yn siwgr pur, a'r gweddill o'i gynnwys yn brotein, deunydd mwyn a fitamin. Yn ei burdeb mae ei rinwedd. Mae ei gynnwys mor bur fel na all unrhyw hedyn afiach fyw ynddo. Mae'n gwrthsefyll bob amhuredd hyd yn oed pe bai afiechyd ar y gwenyn ei hun.

Cafwyd hyd i fêl ym medd Tutankhamen yn yr Aifft, wedi ei gadw yno am 3,300 o flynyddoedd. Wrth gwrs, 'roedd wedi tywyllu a thewychu, ond er hynny yr oedd yn parhau yn bur o hyd.

Gall mêl amrywio yn ei liw a'i flas, a hynny wrth gwrs yn dibynnu ar y gwahanol neithdar a gesglir o amrywiol flodau. Mae'n debyg i'r rhai ohonoch chwi sy'n hoff o fêl sawru arogl y grug, meillion, blodyn y pren afalau neu'r mwyar, ar y cynnyrch.

Beth am ei werth i'r corff? Os bu i chwi fwyta pwys o fêl unrhyw adeg, cawsoch gymaint o faeth ac a rydd o 8 i 12 pwys o ffrwythau, 10 i 20 pwys o lysiau, chwe pheint o lefrith a dros ddau ddwsin o wyau!

Yn ogystal â bod yn fwyd llesol, mae i fêl ei werth meddiginiaethol. Ni ellir cael unrhyw beth sy'n fwy treuliadwy i'r corff nag ef ac mae'n gymorth i gryfhau y nerfau. Fel y crybwyllwyd, mae'n atiseptig o'r radd flaenaf sy'n gymorth i anhwylderau ar y gwddf ac ar ddoluriau mewnol ac allanol. Fe'i defnyddir mewn amryw foddion a rhydd egni arbennig i'r corff.

Cyn tewi, rhaid sôn hefyd am yr arferiad hen iawn o ddefnyddio mêl i wneud math arbennig o win, sef medd. 'Roedd gwneud medd yn grefft neilltuol mewn llawer i fynachdy, ac mae'n arferiad sy'n parhau o hyd.

Mae llawer o hanesion am y Cymry a chenchedloedd eraill sy'n profi'n ddigonol fod medd yn ddiod poblogaidd yn yr hen amser.

Ceir sôn am y Brythoniaid ym mrwydr Catraeth yn y chweched ganrif yn treulio blwyddyn cyn y frwydr yn gwledda ac yfed medd. Mae cerdd Aneirin fardd "Y Gododdin", sy'n disgrifio'r hanes, yn llawn o gyfeiriadau at y mynych yfed o'r medd — "Cyd yfem fedd gloyw." Methiant fu'r rhyfel o ganlyniad iddynt hwy. I'r "Gwŷr a aeth i Gatraeth — gwenwyn fu!"

(i barhau)

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



CROESO i'r Llannerch, — a diolch am eich llythyrau caredig, ac am ambell i sgwrs ddiddorol ynglŷn â chynnwys y golofn, mewn ysgol, ar y ffôn, ar y stryd, ac ar gae ffwtbol.

Mi dreuliais i nos Sadwrn difyr iawn tua chanol y mis 'ma — yn Ysgol fach y Sarnau, ger y Bala. Rownd derfynol Cynghair Ymryson y Beridd, ardal Penllyn a'm denodd i yno — a dyna wledd a gafwyd. Y Prifardd Gerallt Lloyd Owen yn Meuryna'n hwyliog a gwerin bro yn mwynhau pedair awr o "ddifyrrwch cartra". Mae'n debyg i rai ohonoch gael tamaid i'w brofi ar raglen "Yr Wythnos". Syniad da oedd mynd â'r camerau i awyrgylch gartrefol Ysgol y Sarnau — bu'n arbrawf llwyddiannus. Gobeithio y gwelwn ni fwy o hyn yn y dyfodol fel y gallwn ni flasu gwir ddiwylliant cefn gwlad ar ei orau. Cefais sgwrs â dau fachgen yno (tua wyth oed) a hithau'n tynnu am un ar ddeg o'r gloch y nos.

"Colli Match of the Day heno hogia?" Cael "do" ddigon ddi-hitio yn ateb. "Bedi'r gora' gennych — 'Match of the Day' ta Ymryson y Beirdd?" A'r ddeuawd wyth mlwydd oed yn ateb yn gadarn — "Wel Ymryson y Beirdd siwr iawn!" A gwyddwn yn ôl goslef eu lleisiau fod yr ateb yn onest ac yn dod o'u c'lonnau.

Ar fur Ysgol y Sarnau, wedi'i gerfio'n gelfydd ar ddarn o goed, — mae un o englynion coffa Gerallt i'w arwr Llwyd o'r Bryn.

Tybiais wrth fyned heibio — ei glywed

O'i oer glai yn sgwrsio,
"Yma'r wyf, ond blant fy mro,
Daliwch heb laesu dwylo".

Ia, 'daliwch heb laesu dwylo'. Mi fyddai Llwyd o'r Bryn wedi bod ar ben ei ddigon yn awyrgylch y 'Pethe' y noson o'r blaen, ac wedi gwirioni ar ateb pendant y ddau foi bach.

AWDL I'R GWANWYN

Pinacl y noson i mi oedd clywed Gerallt yn adrodd ei Awdl i'r Gwanwyn. Awdl na fu erioed mewn cystadleuaeth. Pe byddai hon i mewn yn Aberteifi ni chredaf y byddai miri'r cadeirio wedi codi. Rhaid i'r awdl odidog hon weld golau ddydd. 'Rydym ar drothwy tymor y Gwanwyn — beth amdani Gerallt? Dyma awdl i'w ffilmio yn sicr.

'Rwy'n siwr fod amryw ohonoch chi'r plant yn prysur baratoi ar gyfer Steddfod Yr Urdd. Wel pob hwyl ichi. Cofiwch am y cystadlaethau ysgrifennu etc. yn ogystal â'r cystadleuthau llwyfan. Y cystadlu sy'n bwysig — a chofio ennill yn wylaidd a cholli'n anrhydeddus ynte.

A FYDD CYSTADLU ELENİ?

Sôn am Steddfod a chystadlu — tydi Gŵyl Fawr Wrecsam ddim mor bell i ffwrdd ychwaith. Ys

gwn i a fydd rhai o fandiau'r fro yn cystadlu yn Wrecsam eleni. Pan gystadlodd Band Llanrug yn Eisteddfod Wrecsam 1876, fe'i bwriwyd allan o'r gystadleuaeth am iddynt ddefnyddio drym. Mae'n amlwg fod rheolau'r bandiau pres yr un mor gaeth gan mlynedd yn ôl hefyd. Wel rheolau neu beidio — mi fyddai band heb ddrwm yn annaturiol rhywsut i mi — ond dyna fo, 'tydwi'n dallt dim am fandiau — dim ond yn mwynhau gwranddo ar bob un, — ac mi ges i bleser mawr o wrando ar fand Deiniolen yn y gêm fawr ym Mangor ganol y mis 'ma.

Rhaid bwrw i mewn i'r fasedd gerddi. Diolch yn fawr i chi Alwyn S. Jones am droi i mewn. Y testun yn amserol — Chwarel Dinorwig.

CHWAREL DINORWIG

Hen Chwarel Fawr Dinorwig
Y fwyaf yn y byd
Lle bu chwarelwyr diwyd
Yn chwysu am eu pryd.

Bu yma gymeriadau
Na fydd eu bath yn wir;
Bu yma grefftwyr cywrain
Yn hollti'r llechen hir.

Fe glywid sŵn yr hoelion
Yn myned ar eu taith,
Fe glywid cân llawenydd
Er c'leted oedd y gwaith.

Daeth tro ar fyd i'r chwarel,
Fel gwyddoch chwi rwy'n siwr,
Fe'u gwerthwyd hi gan Meichaël,
Mor chwerw oedd y stŵr!

Bu llawer un yn segur
Ar ôl yr ergyd hon,
Fe gollodd llawer teulu
Ddiddanwch difyr llon.

Yng nghanol yr holl dristwch
A phawb yn gofyn pam
Daeth gwaith cynhyrchu trydan
I sythu'r lonydd cam.

Er nad yw hyn lawn cystal
Â thrin y lechen hir,
Cyflogwyd mil o bobl
Oedd segur yn y sir.

Symudwyd mewn byr amser
Domenydd gwaelod gwaith
Ar ôl i'r hen chwarelwr
Chwysu am amser maith.

Alwyn S. Jones, Nant Peris

Mae Gwilym E. Davies wedi llunio pennill bach ac mae'n eich gwahodd chi blant i'w orffen. Tydi hi ddim yn rhy ddiweddar i sôn am eira — mae mantell wen dros ysgwydd y mynyddoedd o hyd.

Y BLODYN EIRA

Un bore oer o lonawr,
A'r wlad tan eira'n wyn,
Mi welais flodyn bychan
Gofynnais iddo'n syn —

"Paham, flodeuyn bychan,
Y daethost yma'n awr
I ganol oerni'r gaeaf,
Y rhew a'r eira mawr?"

"O!" medd y blodyn eira

I'w gorffen gan y plant.

G.E. Davies, Y Ddôl

Beth dd'wedodd y blodyn ys gwn i? Rhowch gynnig arni blant, ac anfonwch eich cynigion i Cryd-yr Awen, Bethel, cyn Mawrth 20fed. Cofiwch fod croeso i blant yn y Llannerch bob amser — "daliwch heb laesu dwylo".

Hwyl fawr i chi,
Selwyn

Llyfrau Cymraeg Newydd

Jones, A.; Cerddi Pentalar; Jones Evan; Balchder Crefft; Jones, Gerallt (gol.); Awen Ysgafn y Cilie; Parri, Harri; Hufen a Moch Bach; Peate, Iorwerth; Rhwng Dau Fyd; Pritchard, Marged, Nid Mudan Mo'r Môr; Thomas, W.J.; Ffiolau Cwm-Yr-Haf; Wiliam, Urien; Storiâu Awr Hamdden Cyf. 3.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Portdinorwic 882
Perchennog: J. Evans

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD GANMOLADWY

NOS IAU y 10fed o Chwefror cynhaliwyd yr Eisteddfod flynyddol yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Cafwyd cystadlu brwd ac yr oedd ôl gweithio caled ar bob cystadleuaeth. Mae'n debyg mai uchafbwynt y noson oedd y ffaith i Eira Wynne Jones, geneth 15 oed o'r 4ydd Dosbarth, ennill y gadair. Yr oedd, fodd bynnag, un ffaith drist ynglŷn â'r seremoni cadeirio; sef mai'r gadair hon oedd y gadair olaf a wnaeth y diweddar Mr. Robin Williams i'r Eisteddfod. Yn ei anerchiad cyfeiriodd y llywydd Mr. Arwel Jones (ein golygydd) at gyfraniad yr Eisteddfod i ddiwylliant yr ardal ar hyd y blynyddoedd, a hyderodd y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol.

BEIRNIAID

CERDD: Mr. Bill Evans, Ysgol Dyffryn Ogwen; **Llên:** Parch Gareth Maelor Jones, Bontnewydd; **Adrodd:** Mr. Geraint Lloyd Owen, Y Ffôr; **Ffrangeg:** Miss Eleri Griffith, Ysgol Brynrefail; **Arlunio:** Mrs. C. Thomas, Ysgol Syr Huw Owen; **Cyfeilydd:** Mr. R.G. Parry, Ysgol Brynrefail; **Llywydd:** Mr. Arwel Jones, Llanrug; **Arweinyddion:** Dr. Prys Morgan Jones, John Eryl Roberts, Ernie Graham, Berwyn Owen, Gwyn Thomas; **Aled Jones;** Michael Lovatt; **Michael John Williams;** **Cadw Marciau:** Mr. R.T. Jones, Mr. S. Allsupp, Carys Iona Williams, Ann Evans. **Cynorthwyo yr Ysgrifennydd:** Sheila Morris, Andre Laubrecht.

BARDDONIAETH GYMRAEG

DOSBARTH 6: 1. Anwen Jones (Gwyrfa);

DOSBARTH 4 a 5: 1. Dewi Williams (Elidir); Gwilym Roberts (Eilian); 2. —; 3. Bryn Jones (Eryri)

DOSBARTH 2 a 3: 1. Eleri T. Ellis (Gwyrfa); 2. Kathy Williams (Gwyrfa); 3. Delyth Parry (Gwyrfa)

DOSBARTH 1: 1. Treisi Williams (Eryri); 2. Alison Jones (Gwyrfa); 3. Tegwen Williams (Eilian)

ARLUNIO

DOSBARTH 5 a 6: 1. Delyth Williams 6 (Eilian); Gwyneth Green 6 (Eilian); 2. Mark Haycroft VA (Gwyrfa); Euron Griffith VB (Eryri); 3. Michael Lovatt 6 (Eryri); Marion Williams VA (Elidir); Debbie Lloyd VB (Gwyrfa)

DOSBARTH 4: 1. Gareth Roberts 4A (Eryri); Patrick Clarke 4A (Elidir); 2. Anwen Hughes 4A (Elidir); Wendy Jones 4B (Elidir); 3. Robert Hugh Owen 4C (Eryri); Glyn Williams 4B (Eryri).

DOSBARTH 3: 1. Arfon Jones 3B (Gwyrfa); Gareth W. Williams 3A (Eilian); 2. Linda Roberts 3A (Gwyrfa); Gillian Chaters 3D (Gwyrfa); 3. Jack Cunliffe 3A (Elidir) Glyn Jones 3A (Gwyrfa).

DOSBARTH 2: 1. Adrian Williams, 2A (Elidir); 2. Eurwyn Jones 2B (Eryri); Colin V. Jones 2C (Elidir); 3. Helena Williams 2A (Eilian).

DOSBARTH 1: 1. Ian Pritchard 1L (Elidir); Paul E. Thomas 1L (Gwyrfa); 2. Jessica Williams 1L (Elidir); Julia Nicholas 1L (Gwyrfa); 3. Philip Thomas 1E (Eilian); Rhian Wyn Williams 1J (Gwyrfa).

YSGRIFEN GYMRAEG

DOSBARTH 6: 1. Dilys Jones (Elidir); 2. Anwen Jones (Gwyrfa); 3. Delyth Wyn (Eilian); Delyth Williams (Eilian).

DOSBARTH 4 a 5 Set 1: 1. Emyr Llewelyn (Elidir); 2. Eira Wyn Jones (Gwyrfa); Shan Ll. Williams (Eilian).

DOSBARTH 2 a 3: Set 1: 1. Iola Griffith (Gwyrfa); 2. Wendy Roberts (Eilian); Gwen Williams (Eilian); 3. Menna P. Williams (Elidir); Kathy Williams (Gwyrfa).

DOSBARTH 1: 1. Ian P. Williams (Eryri); 2. Gareth Owen (Eryri); 3. Tegwen Williams (Eilian)

DOSBARTH 2 a 3 Set 2: 1. Olwen Roberts (Elidir); 2. Robin Williams (Eilian); Trebor Thomas (Elidir); 3. Eirian Williams (Elidir)

DOSBARTH 4 a 5: Set 2: 1. Carol Anne Roberts (Eilian); 2. —; 3. Karen Williams (Eryri); Clive Griffith (Elidir) Geraint Jones (Eilian); Wynne Roberts (Gwyrfa); Bryn Hughes (Elidir)

DOSBARTH 2 a 3 Set 3: 1. Stephen Owen (Eilian); 2. Sandra Jane Foulkes (Eilian); 3. Valerie Ann Rowlands, Ann Patricia Owen a Nia Wyn Jones (Gwyrfa i gyd)

DOSBARTH 4 a 5: Set 3: 1. Llynwen Parry (Eilian); 2. Pat Morris (Elidir); 3. June V. Owen (Gwyrfa)

DOSBARTH 1E a 2D: 1. Shan Lewis (Eilian); 2. Rhiannon Wyn Griffith (Elidir); 3. Alison Williams (Eryri); Graham Williams (Gwyrfa);


DOSBARTH 4D a 3D: 1. Glenys Owen (Eryri); 2. Cora Wood (Gwyrfa); 3. Dilwyn Hughes (Eilian)

DOSBARTH 5D: 1. Harold Owen (Eilian); 2. Carys Williams; 3. Paul Williams (Eryri)

Parhad y tro nesaf.



Rhes ôl: Annette Roberts (Arweinydd Côr Pedwar Llais buddugol Elidir) Iorwen Parry (Arweinydd Côr Cerdd Dant buddugol Eilian) ac Anwen Jones (Arweinydd Cor Adrodd buddugol dan 15 Gwyrfa). Blaen: Ann Thomas a Michael John Williams — Capteinlaid Elidir, y tŷ buddugol.



Julie Leatherbarrow — mwyaf o farclau dan 15eg oed.



Delyth Williams — mwyaf o farclau dros 15eg oed.

SYLW I



Eira Wynne Jones o Ddeiniolen, anillydd y Gadair.

Croeso i'r



Mrs. Eirlys Pierce yn cyflwyno record iddo roi anerchiad i blant Ysgol Ddeiniolen dros 15eg oed.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL**

R IFANC



Yn y Eisteddfod Brynrefail, 1977.

Prifardd



Plant Llanbêr i'r Prifardd T.Llew Jones ar ôl darn yr wythnos diwethaf. Ef gyfansoddodd

Y Gwasanaeth Ieuencid

gan y Cyngorydd Gwyn O. Jones

POLISI'R Pwyllgor Addysg yw sefydlu a chynnal clybiau ieuencid yn ôl y galw ymhob ardal dan arweinyddiaeth gymwys i symbylu ieuencid i gymdeithasu a chyfranogi mewn amrywiol weithgareddau.

Cynorthwyr hefyd Fudiadau Ieuencid Gwirfoddol i sefydlu a chynnal clybiau yn y gwahanol ardaloedd drwy ganiatau defnyddio adeiladau perthynol i'r Cyngor Sir a rhoi grantiau at rentu neu gynnal adeilad a rhoi offer ar fenthyl parhaol.

Erbyn hyn o'r 105 o glybiau rhan-amser sydd wedi eu sefydlu yng Ngwynedd mae 43 ohonynt yn Rhanbarth y Gorllewin ac ymysg rhain ceir clybiau wedi eu sefydlu yn Nant Peris, Llanberis, Brynrefail, Cwm-y-glo, Llanrug, Penisarwaun, Dinorwig a Bethel.

Cyfarfu rhain mewn amrywiol adeiladau, sef ysgolion, hen ysgolion a ddefnyddir fel canolfannau cymdeithasol, neuaddau pentref, neuaddau eglwys a festrioedd capeli.

Er fod llawer iawn o'r manau cyfarfod ymhell o fod yn ddelfrydol ac o'r herwydd, yn cyfyngu ar y nifer a'r math o weithgareddau yr hoffai'r ieuencid gynnal, ceir enghreifftiau o frwdfrydedd ymysg yr aelodau a chydweithrediad glos ymhlith arweinyddion.



O'r dde i'r chwith: Mr. D.L. Jones (Ysgrifennydd), Mrs. J. Williams (Llywydd) a Mrs. Dilys Jones (Trysorydd) o Bwyllgor Carnifal Llanrug yn cyflwyno gêm sgîts bwrdd a phêl-droed i Glwb Ieuencid y pentref, sef rhodd o Gronfa'r Carnifal.

Yn y llun hefyd gwelir rhai o aelodau brwd y clwb a'r ddau arweinydd Emlyn Hughes a Dilwyn Jones.

Mae'r gêm eisoes yn atyniad mawr ac mae'r Clwb Ieuencid yn dymuno diolch yn fawr i Bwyllgor y Carnifal am eu caredigrwydd.



ADRAN YR URDD LLANBERIS: Cynhaliwyd Ffair Sborion yn Festri Gorffwysfa nos Wener, Chwefror 4ydd, gyda'r elw o £45 yn mynd tuag at dalu am weithgareddau a fydd yn digwydd yn ystod misoedd y gaeaf. Miss Meira Jones a Mr. Bert Parry sy'n gyfrifol am yr Adran newydd hon sy'n cyfarfod bob nos Wener am 6 o'r gloch.

Trefnwyd y Ffair Sborion yn gyfangwbl gan y plant eu hunain gyda chymorth gan rai o'r rhieni a chyfeillion. Dymuna'r trefnwyr ddiolch yn gynnes i'r plant, i'r pentrefwyr a charedigion eraill am eu cymorth.

NOFELYDD LLEOL

Ganed John E. Williams yn Llandeiniolen yn 1924. Cafodd ei addysg yn Nhanycoed a Brynrefail. Mae o gyffamaethyddol, a bu'n awyrennwr yn ystod y Rhyfel.

Ar ôl Cadoediad, denwyd ef gan y mudiad Existentialism ym Mharis, lle daeth yn gyfeillgar â Simone de Beauvoir. Yn ddiwedd-

arach, bu'n crwydro siroedd y goror, yng nghwmni'r sipsiwn.

Aeth ef a'i wraig, Joan Rees, ar daith moto-beic 6,000 o filltir oedd ar draws Ewrop i Cape St. Vincent a dilynasant daith George Borrow drwy'r pentir Iberaidd gan fyw am gyfnodau gyda physgotwyr Portiwgal a sipsiwn Andalusia yn ogofâu'r Sacro

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams

DIWRNOD CREMPOG CAFODD "Modryb Grempog" groeso chwilioeth reit siwr yn holl gartrefi'r ardal wythnos yn ôl. Fel hyn y cyfarchodd fy nhad y Grempog.

Un gron, dyner groen-denau — a blasus
I'r blysig ei enau:
Da ei lle i de rhwng dau,
Gawod fenyng ac wyau!

Chwef. 1948

Myn, rhag rhemp i wneud cremnog —
amynedd,

Ymenyn a thriog,
Siwgr yn faeth, a llaeth fel llog,
I'w chymysgu chwim ysgog.

1939

Aeth ganwaith werth wyth geiniog —
ar reidiau

Y radell a'r grempog:
A rhoi'r ymenyn i'r rôg
A thri o wyau a thriog.

Chwef. 1952

Cyfieithiad o'r Englyn Cyntaf

Done tender, round and handy — a
nice shape,

So sweet, sleek and tasty:
And how true 'tween two with tea,
A buttered batter beauty!

Awst 1954

Glan Rhyddallt

YSGOL DOLBADARN

Yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill bydd plant yr Ysgol yn cymeryd rhan mewn Ymgrych Lyfrau genedlaethol. Y llynedd daethant yn ail drwy Gymru gyfan. A fuasech chi'n rhoi cefnogaeth iddynt eleni? Bydd catalogau ar gael gan y plant.

Y BÊL YN Y RHWYD

AR ÔL ennill 23 - 8 yn erbyn Ysgol y Santes Fair, Bangor, mae Tîm Aelwyd Ysgol Dolbadarn wedi cyrraedd Rownd Derfynol Cwpan yr Urdd. Byddant yn chwarae yn erbyn Ysgol Deganyw cyn diwedd y tymor. Enillwyr y gêm honno fydd yn cynrychioli'r Sir yn y gêm genedlaethol a chwaraeir ar Fae Eisteddfod yr Urdd y Barri.

Monte, Granada.

Treuliodd Mr. Williams gyfnod hefyd ym Mhrifysgol Coimbra. Bu'n byw wedyn yng ngwlad y Basc ac yn nghorsydd y Camargue yng ngheg y Rhone. Crwydrodd yn Sierra Nevada, ym mrynau'r Matterhorn ac yn yr Alpau o gylch Chamonix.

Fel John Lezayre, cyhoeddodd lawer o storïau mewn cylchgronau Saesneg ac fel John E. Williams, yr Arfonwr cyhoeddodd bedair nofel Gymraeg — *Hadau Gwyllt*, *Modd i Fyw*, *Yr ynys Wydr* a *Paul Jones a'r Tywysog*. Darlledwyd ei stori *Elwd y Teiliwr Bach* gan y BBC a darllenwyd llawer o'i sgriptiau ar raglenni plant HTV.

O SENEDDAU'R FRO

OES GENNYCH chi blentyn go glyfar ar yr aelwyd 'cw? Ydi o'n cynnig 'i O Lefel eleni? Derbyniwch fy nghydyndeimlad i os ydi o'n eithriadol o glyfar.

Bydd, mi fydd gynnoch chi fil i'w dalu cyn y caiff eich plentyn roi pensal ar bapur os ydi o'n arbenigo mewn dros wyth o bynciau. Ydi, mae'n anodd coelio'r peth yn 1977, yn tydi? Plentyn wedi ymlafnio hefo'i wersi ac wedi ymdrechu i fynd ymlaen, a rwan y Pwyllgor Addysg yn dirwyo ei rieni. Mae 'na ryw beth o'i le yn rhywle.

DIOD O DDŴR DOED A DDÊL. Bu Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn gwneud archwiliad bacteriolegol o ansawdd dŵr yfed yr ardal. Dyma'r canlyniad:

Lle	Nifer y samplau a gymerwyd	Nifer anfoddhaol	Ffynhonell
Llanberis	29	10	Afon Goch ac Afon Hwch
Nant Peris	2	-	Pistyll Dwr Oer
Deiniolen	6	1	Afon Marchlyn
Dinorwig	5	3	Ffynnon Terfyn
Penisarwaun	5	2	Afon Marchlyn
Llanrug	6	3	Afon Marchlyn
Cwm-y-glo	5	2	Afon Allt Goch
Bethel	2	1	Afon Marchlyn

Ble i fynd am y peint gora? Wel, i'r Nant am y peint saffa', ond fe gewch un eitha boddhaol yn Neiniolen hefyd. Iechyd da ichi!

TRA AR y busnes dŵr 'ma! Bu i'r Aelod Seneddol alw sylw at gŵyn am y toiledau cyhoeddus yn Llanberis. Fe eglurwyd iddo bod y toiledau yng Nglanllyn, Llanberis yn cael eu cau dros gyfnod y gaeaf, ond bod toiledau ym Maes Padarn yn agor drwy'r flwyddyn.

Mewn ymgynghoriad â'r Aelodau lleol, cafwyd awgrymiad bod y drefn i'w newid, oherwydd bod y toiledau yng Nglanllyn yn nes at y Stryd Fawr a'r siopau, ac hefyd am fod cyfleusterau ar gyfer personau methedig yn y toiledau hyn.

Mae'r mater yn cael ei alw i sylw'r Pwyllgor, oherwydd bydd y newid yn cael adlewyrchiad ar gyfanswm cyflog wythnosol y glanhawr. Mwy o dreth dŵr?

O GANLYNIAD i gais a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymdeithas Llanrug, bu i Syrfeur y Sir wneud arolwg, am tua deuddeg mis, o'r traffig yn Sgwâr Llanrug.

Mae modurwyr yn dueddol i barcio, yn ddiwahân, ar y pum ffordd sy'n ffurfio'r groesffordd, ac mae hyn yn beryglus o safbwynt diogelwch, ac yn rhwystr i'r traffig sy'n trafaelio drwy'r sgwâr.

Mae Syrfeur y Sir yn bwriadu ystyried gwneud y gwaharddiadau canlynol:

Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg — ar bob ochr i'r Ffordd A 4086 o bwynt 24 medr i'r Gorllewin o gyffordd ffordd Glan Moelyn ac am bellter o 70 medr i'r De-ddwyrain.

Ffordd Crawia (Llanrug i Fethel) — Ar bob ochr i'r ffordd am bellter o 30 medr mewn cyfeiriad Gogleddol o'r lle mae yn cysylltu â'r Ffordd A4086.

Ffordd yr Orsaf — Ar bob ochr i'r ffordd am bellter o 35 medr mewn cyfeiriad Gogledd-ddwyrain o'r lle mae'n cysylltu â'r Ffordd A4086.

Ffordd Glan Moelyn — Ar bob ochr i'r ffordd am bellter o 15 medr mewn cyfeiriad De-ddwyrain o'r lle mae'n cysylltu â'r Ffordd A4086.

Mae'r Prif Swyddog Technegol yn awgrymu fod y camau a argymhellir gan Syrfeur y Sir i gael eu cymeradwyo.

Am waith Adeiladu RHAGOROL
am bris RHESYMBOL
cysylltwch â

B.KAVANAGH

(CONTRACTWYR ADEILADU)

7 MILLS ROW
BLAENAU FFESTINIOG
Ffôn : 268

Drama Llanbêr



Cwmni Drama Llanberis ar ôl actio Ffars 3 act gan E. Byron Jones, "Llaeth a Mâl" yn Llanberis, Glynllifon a Llanrug yn ystod y mis. Byddant yn Neiniolen ar Fawrth 9fed, yng Nghonwy ar Fawrth 19eg, a Glynceiriog ar Ebrill 1af. Tipyn o drafaelio i gwmni drama.



Yn y lluniau uchod gwelir rhai o hobia'r ddrama yn gosod y llwyfan ar gyfer eu dwy noson o berfformio yn Llanberis. Yn y llun ar y chwith mae'r Parch. John Owen (yn y cap a'r tosl!), Myrddin Owen a Ron Owen (y



ddau yn y canol) yn derbyn eglurhad ar y ddawn o godi llwyfan gan y ddau arbenigwr Dafydd Price ac Alwyn Thomas. Gwaith mawr i griw bach. Oni fyddai'n haws adeiladu llwyfan parhaol yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis, deudwch?

Y TORGOCH

gan
ARBENIGWYR
LLEOL

MAE'N BUR debyg mai'r creadur mwyaf diddorol yn y fro hon yw'r Torgoch. Yn ôl yr ymateb i'r erthygl ar y pysgodyn hawddgar hwn yn rhifyn 12, Chwefror 1977 o Eco'r Wyddfa mae'n ymddangos fod gan arbenigwyr y BCCT rai sy'n amheus o'u damcaniaethau. Un sydd yn amheus o un neu ddau o bethau a ymddangosodd yn yr erthygl yw Mr. David J. Roberts, Sŵn y Gwynt, Llanberis sydd yn bysgotwr torgoch ac yn arbenigwr cydnabyddedig ar y pysgodyn yn yr ardal. Dyma ran o'i adroddiad ef a'i sylwadau ar y Torgoch, ac yn wir, byddwn yn cyhoeddi mwy o'i erthygl yn ystod y misoedd nesaf:

Er mwyn clirio ychydig ar yr awyr ynglŷn â Thorgochiaid Llyn Padarn a Llyn Peris ceisiaf roi rhai sylwadau a ffeithiau ar ôl gwyllo eu symudiadau am dros hanner canrif, a dal llawer ohonynt.

Pell fyddo i mi groesi cleddyf â'r arbenigwyr ar y pwnc, ond rhydd i bob dyn ei farn ac i bob barn ei llafar.

Mae'r torgoch yma, medden nhw, ers Oes yr Ia, wedi ei ddal o dan y rhew mawr yn y Llynnoedd ac ar yr un gwynt maent yn dweud mai'r un rhew a ffurfiodd y cymoedd a'r llynnoedd. Lle'r oedd y Torgoch gynt tybed? Yr unig ffaith bendant yw eu bod yma yn awr, ac wedi bod ers canrifoedd. Roedd y Rhufeiniaid yn eu hadnabod ac wedi eu henwi. Bu eu byd yn ddistâr iawn ar hyd y canrifoedd. Daeth y perygl cyntaf i'w rhan pan ddechreuodd mwynwyr gloddio am gopr yng Ngwaith y Bens a Gallt y Llan, a thywallt y rwbel i Lyn Peris. Diolch i'r Drefn, rhoddwyd y aorau i'r mwyngloddio cyn iddi

fod yn rhy hwyr. Lladdwyd pob brithyll yn Llyn Llydaw yn amser fy nhaid, ac nid oes yr un yno byth. Byddai yn arfer dal pysgod i fyny i dri phwys yr un yn Llyn Llydaw cyn hynny.

Y mae twnelwyr Gorsaf Drydan Dinorwig yn twnelu o Chwarel Gallt y Llan i gyfeiriad Llanberis, felly maent yn torri drwy'r gwythiennau copr i gyd yng Ngallt y Llan a'r Bens. Hyn sy'n bwysig—p'le maent yn tywallt y rwbel? A ydyw Dr. Rogers yn gofalu nad yw'n mynd i'r afon neu'r llyn? Gall niweidio'r pysgod yn Llyn Padarn yn ogystal â Llyn Peris gan fod y dŵr o hyd yn dal i redeg trwy Bont y Bala.

Nid oes berygl i bysgod oddi wrth rwbel llechi oherwydd dŵr a ffurfiodd y llechen, ond tân a ffurfiodd y creigiau copr. Rwyf bron yn sicr os ydynt am symud y Torgoch i llynnoedd eraill fod gwell gobaith i ddyfodol y pysgod os oes llechfaen yn rhywle yn y llyn.

(I BARHAU)

DEINIOLLEN

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD

Daeth cynrychiolwyr yr Eglwys ynghyd i Ffestri Ebenezer, pnawn Mawrth, Chwefror 15fed i drefnu bod rhai o bob Eglwys yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth a gynhelir pnawn Gwener Mawrth 4ydd, yn Ffestri Ebenezer am 2.15 o'r gloch. Mynegodd Mrs. N. Williams, Y Bwthyn (Tŷ Capel gynt) ei dymuniad o gael ei rhyddhau o'r swydd fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Dewiswyd Mrs. E. Lloyd Jones i'r swydd ac ail-etholwyd Mrs. Nan Williams, 2 Deiniol Road, yn Drysorydd. Diolchodd y Cadeirydd, Miss Priscie Roberts, i Mrs. Williams am ei gwaith trylwyr, a lleisiwyd gwerthfawrogiad o'i llafur fel Trefnydd ac Ysgrifennydd yn ystod yr unmllynedd ar bymtheg y bu'n gwasanaethu. Mynegwyd diolch i Swyddogion Capel Ebenezer am ganiatau cynnal y gwasanaeth yn y Ffestri eto eleni.

I NIGERIA I WEITHIO

Ar Chwefror 11eg ehedodd Mr. Orwig Lloyd Jones, mab y diweddar Mr. W. Orwig a Mrs. Catherine Jane Jones, 26 Hafod Olau i ddechrau ar swydd newydd fel Peiriannydd Sifil yn Kand, Nigeria. Dymunwn yn dda i Orwig sydd ers rhai blynedd wedi bod yn gweithio fel Syrffwr ar rai o draffyrdd Lloegr.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun, Chwefror 7fed yng nghyfarfod Sefydliad y Merched rhoddwyd croeso cynnes gan y Llywydd Mrs. M.A. Thomas i Mr. a Mrs. T.H. Williams, (Carreg Fawr gynt) Drws-y-nant, Waunfawr. Cafwyd awr o waith barddonol newydd diddorol, hwyliog ac addysgiadol. Diolchwyd yn gywir iawn i Mr. Williams gan Mrs. Hughes, Rhiwen ac amryw eraill am noson fendithiol iawn. Balch oeddem o weld Mrs. Hughes wedi gwella i ddod atom yn ôl wedi misoedd o waeledd. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs. Mair Jones a Mrs. Hannah J. Thomas. Cydymdeimlwyd a Miss Eleanor Jones, Mrs. Hughes Rhiwen, Mrs. M.G. Williams a'u teuluoedd oherwydd profedigaethau. Rhoddwyd y te gan Mrs.E.M. Roberts, Mrs. J. Wyn Williams a Mrs. Betty Wyn Davies, Pentre Helen ac enillwyd y raffl gan Mrs. Hughes Rhiwen.

GWOBROWYO GYRRWR

Eleni cynhaliodd Clwb Moduro Môn ac Arfon eu cinio blyneddol yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, ac ymysg y gwobrau gyflwynwyd yno oedd un i yrrwr lleol, Keirion Môn Williams, 3 Tai Cynfi a'i lywiwr Alec Harrison. Urddwyd hwy a Chwpan Frank Campbell fel goreuon 1976 ynghyd â Thlws Benzole fel pencampwyr eu dosbarth. Keirion a'i lywiwr enillodd y drydedd wobwr yn Rali Palferman oedd yn cael ei phenderfynu ar nifer o gystadleuthau gynhaliwyd gydol y tymor. Ar hyn o bryd mae'r car yn Pierstune, Whitchurch, Sir

Amwythig yn cael ei baratoi ar gyfer y rali nesaf a gynhelir ar Fawrth 17eg 1977.

MERCHED Y WAWR

Dawn Dweud oedd testun sgwrs Mr. Eurig Wyn, Waunfawr yng nghyfarfod nos Lun, Chwefror 21. Soniodd am nodweddion y Cymry sydd yn meddu'r ddawn hon, gan roddi enghreifftiau o ddawn yr hen Feirdd, Gwleidyddwyr a Phregethwyr. Cyfeiriodd at ddi-grifwch a'r hiwmor perthynol i'r Chwarelwyr a'r Glowyr; at eraill sydd â'r ddawn greadigol nodweddiadol o'u cymdeithas. Yn egluro'r sgwrs cafwyd recordiau gyda dyfyniadau o sgysiau rhai personau adnabyddus gan Mr. J. Rhys Jones, Waunfawr. Trawiadol iawn i ni oedd clywed llais y diweddar Mr. Idris Roberts o Gwm-y-glo gynt yn adrodd am y syniad fu i droi ardal Llanberis yn 'Country Park'. Beth fyddai gan Idris i ddweud am y gwaith sy'n mynd ymlaen y dyddiau hyn yn ein bro tybed?

Diolchwyd i'r ddau westai gan Mrs. Gladys Evans a'r Llywydd Miss Pricie Roberts. Darparwyd y paned te gan Mrs. H. Sutherland, Mrs. Margaret Roberts a Mrs. Ifan Wyn Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs. Ciss Williams, Pentre Helen. Cynhelir Swper Gwyl Ddewi yng Ngwesty Gallt-y-Glyn, Llanberis nos Wener Mawrth 11eg. Gofynnir i'r aelodau sy'n dymuno dod roddi eu henwau i Mrs. Valmai Williams 2 Tai'r Faenol neu Mrs. Margaret Roberts, Porth y Gogledd, mor fuan ag y gellir. Ceir yr holl fanylion eraill ganddynt hwy.

ENNILL CADAIR

Mae cyfeiriad mewn colofn arall o'r Eco at lwyddiant Eira Wynne Jones merch Mr. a Mrs. D.W. Jones, 3 Rhydfadog yn y gystadleuaeth am Gadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail eleni, ac ymfalchiwn fel ei chyd-bentrefwyr yn ei buddugoliaeth. Dywed rhyw hen air "bod cyw o frid yn well na phrentis" ac o gofio bod Eira Wyn yn wyres i Mr. John D. Evans, Yr Iard, ni ryfeddwn at ei llwyddiant. Dymuna Eira ddiolch yn gynnes am gyfarchion ac anrhegion lawer a dderbyniodd ar yr achlysur.

Manteisiwn ar y cyfle i longyfarch Mr. Evans ar ennill ohono yntau wobrwyr am ei gynnyrch llenyddol yn eisteddfodau Bwlchtocyn, Morfa Nefyn a Garndolbenmaen.

CLWB IEUENCTID

Fe ail ddechreuodd y clwb ieu-entid ychydig cyn y Nadolig a'r swyddogion a etholwyd am y flwyddyn oedd: Keith Bingham, Trysorydd; Marion Williams — Ysgrifennydd; Carys Williams — Ysgrifennydd gohebol. Cafwyd cystadleuaeth yn ddiweddar yn erbyn Clwb Bontnewydd ar ddartiau, tenis bwrdd, a gwyddbwyll, ond yn anffodus Bontnewydd enillodd. Cafwyd hefyd ddisgo yn yr un ganolfan a phawb wedi mwynhau eu hunain. Yr unig gŵyn oedd ei fod wedi gorffen am hanner awr wedi naw. Mwynhawyd noson yn y pwl



nofio ym Mangor yn ddiweddar, ac yn fuan bydd cystadleuaeth nofio yn cael ei chynnal yn Harlech. Gyda hyn bydd aelodau'r clwb yn dechrau hyfforddi ar gyfer y gêm bêl-droed pump bob ochr. Arweinydd y clwb yw Mr. Ieuan Roberts, Y Felinheli.

Y SEINDORF

Gofid oedd clywed am farwolaeth Mr. Huw Parry (Hen Bar) Maes Gwylfa gynt, oedd wedi rhoi tros ddeugain mlynedd o wasanaeth diffuant i'r seindorf cyn ei waeledd rhyw bum mlynedd yn ôl pan symudodd i gartrefu ym Mangor. Roedd y seindorf yn ffodus yn ddiweddar o gael chwarae gerbron tyrfa o tua chwe mil yn y gêm fawr rhwng Bangor a Chaerdydd am y gwpan Cymru. Nos Sul,

Chwefror 20fed daeth cwmni Radio C. & A. i gwt y band i wneud amryw o recordiau tâp; gwasanaeth arbennig yw hwn i'r cleifion sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Os oes gennych rhywun yn yr Ysbyty a garai glywed recordiad o'r seindorf anfonwch at Radio C. & A. Bangor. Gwahoddiad nesaf y seindorf fydd i chwarae i'r dorf yn y gêm hoci ryngwladol rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon ar Fawrth 5ed ym Mangor.

CYNGOR EGLWYSI

Nos Fercher, Chwefror 16 cynhaliwyd cyfarfod dan nawdd y Cyngor yng Nghapel Cefn-y-Waun pryd yr agorwyd ar fater o'i ddewis gan y Parch. Eryl Lloyd Davies, Ebenezer.

PRIODAS ACTORION



Mis Ionawr priododd Eilian Wyn, gynt o 3 Maes Eilian, Dinorwig, gyda Victoria Plucknett gynt o Dreforus, yng Nghapel Cymraeg Radnor's Walk, Chelsea, Llundain. Gweinyddwyd gan y Parch. Dewi Eurig Davies, Abertawe. Yr organydd oedd Dr. Hugh T. Jones. Fe roddwyd y briodferch ymaith gan ei thad, Mr. E. Plucknett. Tyst y priodfab oedd ei fam, Mrs. Emma Jones, nawr o Langefni. Roedd y gwasanaeth yn y capel yn gyfangwbl yn Gymraeg.

Mae Eilian yn gweithio ar hyn o bryd i H.T.V yng Nghaerdydd ac mae ei wraig yn gweithio i'r B.B.C yn Llundain yn recordio'r ail gyfres o "Duchess of Duke Street" lle mae'n chwarae rhan y forwyn Gymraeg 'Mary'.

Roedd teulu agos y cwpwl yn bresennol.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Anëuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



BETHEL

PLAID CYMRU

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru yn y Neuadd nos Fercher, Chwefror 16. Gan fod dau neu dri o ddigwyddiadau eraill yn y pentref ni chafwyd cynulliad mawr ond mwynhawyd yr Yrfa gan bawb oedd yn bresennol. Yr enillwyr oedd: Cyntaf: Wyn Morris, Y Fachell, Ail — Mrs. Hughes, Trydydd — Mrs. Ann Evans, Gorffwysfa; Bwbi — Mrs. Madge Williams, Y Rhos.

Penderfynwyd cynnal Gyrfa arall nos Lun Mawrth 21ain yn y Neuadd am 7.30 p.m.

Nos Fercher Mawrth 16 fe gynhelir Disgo yn y Neuadd i ddechrau am 7.30 p.m.

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, Mawrth 9fed bydd bws yn cychwyn o Fethel am 6.30 i fynd â'r gangen leol o Ferched y Wawr i Westy Plas Maenan, Llanrwst am ginio i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Nos Wener y 18fed o Fawrth am 8 o'r gloch bydd cyngerdd gyda Pharti Eryri yn y Neuadd. Mae'r gangen o Ferched y Wawr wedi trefnu'r cyngerdd i godi arian i brynu gwely ripple i'r ardal.

LLONGYFARCHIADAU

I Owain a Helen Bebb, Llwyn Eithin ar enedigaeth Aled Ieuan, brawd i Gweno, Guto ag Elis.

Y NEUADD GOFFA

Mewn cyfarfod diweddar o

bwyllgor y Neuadd derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad o'i swydd fel gofalwr oddi wrth Mr. Hugh Jones, Rhianfa. Mynegwyd diolch iddo am ei waith. Gwahoddir ceisiadau am y swydd i ddechrau ar y gwaith Ebrill 1af. Gellir cael manylion oddi wrth ysgrifennydd y pwyllgor, Mr. Geraint Elis, Sycharth. Dylai'r ceisiadau fod i law erbyn Mawrth 18fed.

CLWB IEUENCTID

Llongyfarchiadau i David Hughes a David Evans am ennill yn eu hadran hwy yn y gystadleuaeth nofio yn Harlech ar 11eg Chwefror. Roeddynt, ynghyd â phedwar aelod arall llai llwyddiannus sef Delyth Jones, Arwel Jones, Kevin Williams ac Euron Griffith yn cynrychioli'r Clwb yn y gystadleuaeth hon yn erbyn clybiau eraill. Y ddau David fydd yn cynrychioli'r clwb yng nghystadleuaeth derfynol Gwynedd yn Nhywyn yn y dyfodol agos.

Brwdfrydedd yr un aelodau ynghyd ag eraill a barodd i'r daith gerdded ar y 19 o Chwefror fod yr un mor llwyddiannus. Casglwyd digon o arian i sicrhau y bydd y clwb yn medru cynnal rhaglen amrywiol yn y dyfodol.

Bu'r disgo a gynhaliwyd nos lau 17 o Chwefror dan Jocyddiaeth y bonwr John Pritchard hefyd yn foddion i godi arian i'r clwb.

BRYN REFAIL

CLWB YR HENOED

Cafwyd cyfarfyddiad o'r Clwb nos Fawrth Chwefror 8ed yn Tŷ Glas dan lywyddiaeth Mr. Griffith Pritchard. Rhoddwyd Adroddiad Blynnyddol o'r gweithgareddau a'r sefyllfa ariannol gan Mrs. Eifiona Jones. Hysbyswyd hefyd i'r Clwb bwrcasu gwresogydd ychwanegol i'r ganolfan. Bydd y cyfarfod nesaf ar ffurf Swper Gŵyl Ddewi wedi ei drefnu yn Nhŷ Glas gan garedigion y Clwb.

PEDAIR CENHEDLAETH YN "Y BRYN"



Ar safle y cyfeirir ato gennym ni bentrefwyr fel "Y Bryn" y triga'r pedair merch a welir yn y darlun. Yn eistedd ar y chwith mae Mrs. M. Closs-Parry, Bryniol gyda'i merch Mrs. Margaret M. Jones, Greuor Villa yn sefyll yng nghefn y darlun. Wrth ochr Mrs. Parry mae ei wyres, Mrs. Carys Lewis, Ael-y-bryn gyda Claire ar ei glin. Ganwyd Claire ar Dachwedd 10ed 1976.

CLWB IEUENCTID

Nos Lun, Ionawr 31ain agorwyd y Clwb unwaith eto i ieuencid y pentref yn Festri'r Capel gan Mr. R. Parry, Trefnydd Ieuencid Gwynedd. Daeth y Clwb blaenorol i ben flwyddyn yn ôl yn hen ysgol Brynrefail. Yr arweinydd presennol yw Mr. John Elfyn Williams, Bethel. Ysgrifennydd y Clwb yw Miss Rose Welsby, Tremallt, Y Trysor-ydd — Mr. Gerallt Jones, Greuor Villa, a'r Cadeirydd — Mr. Meilir Roberts, 8 Trem Eilian. Bwriedir cynnal y Clwb bob nos Lun o hyn ymlaen ac mae'n agored i aelodau o 14eg i 25ain oed.

CYMDEITHASAU'R CHWIORYDD

Yn ystod y mis, cyfarfu Undeb y Mamau pryd y gwahoddwyd cangen Llanllechid i gymryd rhan mewn gêm "Three Little Words". Brynrefail a orfu o ddeg pwynt. Mrs. Knox oedd yn gofalu am y gêm. Gwnaed te gan aelodau'r pwyllgor. Yng nghyfarfodydd Sefydliad y Merched cafwyd arddangosfa o waith gwau gan Miss Eurwen Williams sydd yn cynhyrchu gwaith o'r fath yn hen ysgol Llandinorwig, ac 'roedd y cynnyrch yn werth ei weld. Mrs. Olwen Jones a Mrs. Knox roddodd y te.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Nos lau, Chwefror 3ydd, cafwyd noson Codi Cwestiwn. Cyflwynwyd y gwesteion gan Mr. D.G. Ellis, Gweledfa a'r Cadeirydd oedd y Parch. S.O. Hughes, Bethel. Daeth amrywiaeth da o gwestiynau i law i'w rhoi gerbron y panelwyr sef Mrs. H. Angell Jones, Bangor; Mr. Cledwyn Jones, Llanfairpwll; Parch. J. Owen-Jones, Bangor; a Mr. Cledwyn Williams, Llanrug. Rhoesant ymdriniaeth feddylgar a gonest i'r holl gwestiynau a diolchwyd iddynt am eu cyfraniad gan Mr. Bertie Roberts. Paratowyd te gan Mrs. Helen Roberts, Llwyncoed Bach a Mrs. Jennie Roberts, Glandwr. Cynhelir cyfarfod olaf y Gymdeithas am y tymor nos lau, Mawrth 3ydd pryd disgwylir Mr. I.B. Griffith yn ŵr gwadd i'r Swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Holland Arms, Pentre Berw.

DYWEDDIO

Llongyfarchiadau i Miss Margaret Mai Jones, Greuor Villa, merch Mrs. Megan Jones a'r diweddar Mr. D.O. Jones, ar ei dyweddiad i Mr. George Meredith, mab Mr. a Mrs. I.J. Meredith, 41 Maes Gwynedd, Caernarfon. Ein dymuniadau gorau i chwi eich dau.

YR AMAETHWR

Hanesydd brwydro oesol - ei linach
Ar lain y gorffennol;
Ei ran o'r drefn werinol
Yw'r hen ddull o drin y ddôl.

Tony Elliott.

MARIA — BRENHINES CORONATION ST.



Mrs. Maria Pritchard yn sgwrsio gyda Pat Phoenix (Elsie Tanner) (Llun trwy garedigrwydd y *Daily Post*)

Ysgwn i pwy fasa chi yn hoffi ei gyfarfod pe baech yn ennill cystadleuaeth a chael y dewis? Wel, gwiredwyd breuddwyd un person yn Llanberis yn ystod y mis diwethaf. Penderfynodd Mrs. Maria Pritchard, 4 Stryd Victoria roi cynnig ar gystadleuaeth yn y *Daily Post* yn dweud trwy gyfrwng llythyr pwy fyddai'n hoffi ei gyfarfod. Ar sail ei gynnwys a'i wreiddioldeb dyfarnwyd ei llythyr yn fuddugol. A'i dewis? Cast y rhaglen deledu boblogaidd *Coronation Street*. Trefnodd y *Daily Post* i godi Mrs. Pritchard yn Llanberis a mynd â hi mewn car cyfforddus i Fanceinion i gyfarfod yr actorion.

Cafodd ddiwrnod i'r brenin yno gyda sawl un o'r actorion megis Len Fairclough, Elsie Tanner, Hilda Ogden a Stan yn dod yn eu tro i sgwrsio â hi. Dangosodd sawl un ohonynt ddiddordeb yn y fro hon ac yng Nghymru a chafodd sgwrs hir gyda Len Fairclough am Ddatganoli. Yn wir, roedd Len o'i blaid.

Wrth ei throi hi'n ôl am Lanbêr ar ddiwedd y dydd daeth dyn golygus i'w chyfarfod wrth y drws. "Good evening, madam," meddai ac adnabu Mrs. Pritchard ef — neb llai na Syr Lawrence Olivier. "Good evening," meddai Maria. Ysgwn i a oedd yr actor enwog wedi synhwyro ei fod wedi cyfarch un o gymeriadau mwyaf hoffus Llanberis? Ysgwn i?

Mae Mrs. Pritchard wedi cael sawl cais yn barod oddi wrth wahanol gymdeithasau a sefydliadau i fynd i siarad am ei phrofiad. Beth amdani? Mae'n werth ei chlywed yn adrodd yr hanes.

10%

ODDI AR
BAPUR WAL a PHAENT LEYLAND
A JELLIPEX
yn

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

PENISARWAUN

CYDYMDEIMLAD

Bu farw Griffith Owen Williams, Chwefror 21 wedi gwaeldd hir a phoenus. Cydymdeimlwn â'i weddw a'i bedair merch yn eu gofid.

PARTI'R HEULWEN

Bydd y Parti yn mynd i Lanberis ar Fawrth 3ydd i ddiddanu pensiynwyr yr ardal.

CLWB YR HEULWEN

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb yr Heulwen yn Neuadd yr Eglwys Chwefror 22. Y gŵr gwadd oedd y Parch. G.W. Brewer a chafwyd pnawn braf yn ei gwmni.

Ni fydd cyfarfod ym mis Mawrth ond cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 26ain. yn Neuadd yr Eglwys a'r gŵr gwadd y diwrnod hwnnw fydd y Cynghorydd I.B. Griffith.

DIOLCHIADAU

Mae Mr. a Mrs. Turner, Tyddyn Difyr yn dymuno diolch i'w cymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt tra buont yn wael.

BABAN NEWYDD

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. R. Davies Y Swyddfa Bost ar enedigaeth eu mab Timothy.

DAFYDD EVANS

Yr oedd yn ddrwg clywed bod Dafydd Evans, Sycharth, Bryn Eglwys, un o olygyddion yr *Eco* ddim yn dda ei iechyd. Dymunwn adferiad buan iddo.

MRS. MUNRO TŶ CAPEL

Gwellhad buan i Mrs. M. Munro sydd wedi bod yn wael ers beth amser.

MR. N. JONES, TAI BRYN HYFRYD

Drwg oedd gennym glywed bod Nathan wedi ei gipio ar frys yn hwyr nos Sul (chwefror 20) i Ysbyty Môn ac Arfon yn wael.

MR. RICHARD WILLIAMS, 20 BRYN TIRION

Yr ydym ar ddeall bod Mr. Richard Williams wedi cael triniaeth i'w benglin a bydd mewn plastr am beth amser eto.

ANEURIN HUGHES (Siop Gron gynt)

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aneurin ar ei briodas 15 Ionawr gyda Denise Anne Perkins 15 Islay Crescent, Highworth Wilts. Priodwyd y ddau yn Eglwys St. Michael, Highworth gan y Parch. L. Philips gyda Peter Steele yn organydd. Y gwas oedd Mr. Elwyn Roberts, Fron Olau, Llanberis ond yn awr yn byw yn Amlwch. Mae Aneurin a Denise yn gweithio yn Banc Lloyd Llundain a byddant yn trigo yn Wimbledon Chase, Llundain.

TYWYDD MAWR

Yn nechrau Ionawr cawsom yr eira a'r lluwchfeydd; yn nechrau Chwefror daeth y glaw trwm. Fe lawiodd yn ddibaid am ddau ddiwrnod a'r canlyniad wrth reswm oedd llifogydd. Un o'r lleoedd i ddioddef fwyaf oedd Stablau. Bu'r lôn yn arwain at y tai o dan ddŵr fel nad oedd na phostman na dyn bara na neb yn gallu mynd trwodd. Pan fydd Miss

Laura Jones, Mr. Gwilym Jones, Miss M. Thomas, Mrs. G. Thomas, Mr. Naylor a Miss Williams yn darllen y rhifyn hwn o'r *Eco* yr ydym yn gobeithio y bydd y tywydd wedi gwella ac na fyddent yn garcharorion yn eu tai.

DYDD GWEDDI BYD—EANG Y CHWIORYDD

Bydd gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 nos Wener Mawrth 5ed.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cafwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Chwefror 22. Llywyddwyd gan Mrs. Jones, Cae Corniog. Llongyfarchwyd Mrs. Eurwen Roberts ar fod yn hen nain a hefyd Mrs. Davies, Y Llythyrdy ar roi genedigaeth i fachgen bach. Cydymdeimlwyd â theulu Cae Howel ym marwolaeth Mr. Griffith O. Williams. Estynnwyd croeso i Mrs. Nathan Jones, 5 Brynhyfryd Terrace fel aelod newydd a dymunwyd yn dda i'w phriod Mr. Nathan Jones yn yr ysbyty ym Mangor. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs. Eiriona Williams yn diolch i'r aelodau am y blodau a anfonwyd i'w mam Mrs. Williams, Tŷ Waen sydd yn parhau i fod yn yr ysbyty ym Mangor. Da deall fod Mrs. Williams yn well. Mr. a Mrs. Cynrig Hughes oedd ein gwesteion a chaed noson ddiddorol ac addysgiadol yn gwylio sleidiau o'u taith o Awstralia i Gymru. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Jones, Cae Corniog, Mrs. Nancy Jones a Mrs. Mary Davies. Gofalwyr y te oedd Mrs. A. Jones a Mrs. Margaret Williams a diolchwyd iddynt hwy gan Mrs. G. Lewis. Enillwyd y raffl gan Mrs. W.J. Jones. Bydd yr aelodau yn mynd am ginio Gŵyl Ddewi i westy Glanffynnon Llanwnda.

**E&
E.M.GREEN**

**SIOP
GRON**

PENISARWAUN

**Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres**

*Dewis rhagorol
Croeso cartrefol*

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

TAN-Y-COED

DR. A MRS. EURWYN EVANS

Pnawn Sul, Chwefror 20fed yng Nghapel Tan-y-Coed croesawyd aelod newydd sef Mrs. Carys Lloyd Evans, Carwyn, Bryngwyn. Croesawyd Mrs. Evans a'i merch Manon Llwyd a'i mab Amlyn Llwyd gan weinidog yr eglwys Y Parch. W.O. Roberts (Dr. Eurwyn Evans yn eglwyswr). Eisoes y mae Manon ac Amlyn wedi cartrefu'n hapus yn yr Ysgol Sul.

Newydd-ddyfodiaid i'r cylch yw Dr. a Mrs. Eurwyn Evans a'u teulu ac estynnwn groeso cynnes iddynt i'r fro.

DELYTH WYN JONES

Llongyfarchiadau i Delyth Wyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed ar ddod yn ail am y gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

GWAELEDD

Dymunwn adferiad buan i Mrs.

Catherine Evans Preswylfa sydd yn Ysbyty Minffordd a Miss Nance Williams Cartref sydd mewn gwaeldd adref.

Croeso adref i Mr. Gwyn Griffith gynt o 3 Tai Trefor, a dymuniadau da yr ardal iddo. Da deall ei fod yn gwella, ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Mon ac Arfon.

DYCHWELYD O CHICAGO

Y mae Mr. Terry de Boo, Bryn Cwil newydd ddychwelyd o Chicago ple bu'n cynrychioli Cwmni Clogwyn Climbing Gear Ltd., Deiniolen mewn arddangosfa Bu hefyd yn ymweld â goruchwylwyr eraill yn San Francisco.

Meddai Mr. de Boo, pan oedd glaw trwm a llifogydd yma, sychder mawr oedd yn San Francisco a'r tymheredd yn y nawdegau.

LLYN PADARN ar ôl Y LLIFOGYDD



DYFROEDD Llyn Padarn wedi crwydro eto yn ystod llifogydd Chwefror. Beth a ddigwydd pan dry peirianwyr y BCCT gwrs afon Nant i Lyn Padarn? Duw yn unig a wŷr.

Chwaraewyr Coleg y Gogledd
yn cyflwyno

CWMWL O DYSTION

gan GWYN THOMAS

Cynhyrchiad JOHN OGWEN

THEATR GWYNEDD, Mawrth 7,8,9
am 7.30 p.m.

TOCYNNAU: 60c (50c i fyfyrwyr, plant a phensiynwyr;
gostyngiad o 10c i bartion o 10 a rhagor), i'w cael o'r Theatr —
Bangor 51708

**GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwy'r lleol



NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU

Balch ydym o gael estyn ein llongyfarchiadau i dri o fechgyn y Nant ar eu gwaith da yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Enillodd David Aagard, 5 Glanrafon, y wobwr gyntaf am adrodd i rai â Chymraeg yn ail iaith iddynt. Daeth Hefin Pritchard, Tŷ Isa yn ail am adrodd a David John Pritchard, Llys Awel yn gyfartal drydydd am ysgrifennu stori yn Saesneg. Daliwch ati hogia a phob lwc yn y dyfodol.

DIGWYDDIAD ANGHYFFREDIN

Nid yw priodas yn ddigwyddiad cyffredin iawn yn y Nant y dyddiau yma, ond ddydd Sadwrn Chwefror 12 gweinyddwyd dwy briodas yma. Yn y bore yn Eglwys Peris Sant priodwyd Dilys Margaret Philips, merch Mr. a Mrs. Arfon Philips, Llanberis yn awr, ond o'r Nant gynt, ag Arwyn Hefin Roberts, Rhosgadfan. Derbyniad y ddeuddyn ein dymuniadau gorau ar yr achlysur hapus yma. Gweinyddwyd gan y Parch. Ganon Alun Jones.

Am ddau o'r gloch y prynhawn yr un diwrnod yn Rehoboth priodwyd Mair Lloyd Williams, Glyn Peris ac Alun Lloyd Williams Yr Wyddfa, Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parch. John Owen, BA., BD., Llanberis. I chwithau eich dau ein dymuniadau gorau fel ardalwyr.

CYDYMDEIMLAD

Nos Wener, Chwefror 11 collasom yn y Nant ym marwolaeth Harry Wyn Jones, 2 Nant Ffynnon un o'n cymwynaswyr mwyaf ac yntau ond 43 mlwydd oed. Cymeriad oedd Harry 'na udganai o'i flaen ac ni chlywid ei lais yn yr heolydd'. Yr oedd ei gymwynasgarwch yn ddi ben draw. Gwyddom ni am lawer ohonynt ond y mae llaweroedd na wyddai neb ond y fo amdanynt. Cymeriad siriol a hoffid gan bawb, yn boblogaidd ymysg ei gydweithwyr ar Gyngor Sir ac yma yn yr ardal lle y priodwyd ef ac Anne ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl i'r pen wythnos y bu farw. 'Roedd y dyrfa fawr a ddaeth ynghyd i'w arwyl yn brawf o'i boblogrwydd. Collodd Eglwys Peris Sant aelod gweithgar a ffyddlon ac mae'r bwlch a adawyd ym marw ei gymydog Elias Griffith ac yntau yn Eglwys Peris Sant yn un mawr. Ond ar yr aelwyd, yn 2 Nant Ffynnon mae'r bwlch mwyaf. Gedy briod a thair o enethod, a hwy oedd canolbwynt ei fywyd prysur. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent y Nant, y bu mor ddiwyd yn ei chadw yn drefnus ddydd Mercher yr 16 o Chwefror. Derbyniad ei weddw a'i blant a'r teulu i gyd ein cydymdeimlad diffuant a dwys â hwy yn eu profedigaeth chwerw.

CLWB IEUENCTID

Deallwn fod aelodau y Clwb Ieuenctid yn brysur y dyddiau hyn yn llenwi manylion ar fap o'r Nant. Byddant yn falch o bob cynorthwy i lenwi'r map i fyny ac mae'n siwr y byddant yn curo ar ddrysau rhai ohonoch i ofyn am

eich help ac mae'n siwr y cânt dderbyniad croesawus gennych.

LLONGYFARCHIADAU:

i'r cyfaill Perisfab ar ei ddarllediad ddechrau'r mis. Gresyn na chawsom sgwrs i gyd ond efallai y bydd cyfle eto i gael y gweddill o'r tâp. Da iawn. Yncl Johnny, diolch am sgwrs fach hollol naturiol.

CYDYMDEIMLAD

Daeth profedigaeth annisgwyl iawn i deulu 3 Tan y Bryn hefyd ym marwolaeth sydyn eu nith Miss Elizabeth Roberts (Bet) yng nghartref ei mam yn yr Wyddgrug. Treuliodd gryn dipyn o'i hamser yn y Nant a bu yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ac aeth ymlaen i orffen ei chwrs fel athrawes. Rhoddwyd ei llwch i orwedd ym medd y teulu yn y Nant ddydd lau, Chwefror 17eg. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Ganon Alun Jones. Derbyniad y teulu i gyd ein cydymdeimlad dyfnaf â hwy yn eu profedigaeth annisgwyl.

O'R UNOL DALEITHIAU

Daeth y newydd ddechrau'r mis am farwolaeth Mr. John Hughes yn 85 mlwydd oed. Brawd yng nghyfraith ydoedd i Mr. Michael Pritchard Ffordd Capel Coch a'r diweddar Mr. Thomas Pritchard Ceunant. Rhagflaenodd ei briod ef chwe mis union bron fel y cofnodwyd y rhifyn Gorffennaf o'r Eco. Derbyniad y teulu i gyd ein cydymdeimlad.

Un arall o blant y Nant a gollwyd yn ystod y mis oedd y Parch. J. Llewelyn Williams Cae Perthi gynt. Bu farw yn ei gartref ym Môn a gedy weddw a thri o blant. Ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu yma hefyd yn eu trallod a'u hiraeth.



GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

Dewis Llafur



MEWN cyfarfod o Bwyllgor Dewis y Blaid Lafur yn Etholaeth Caernarfon ddydd Sadwrn, Ionawr 22ain a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Llanllyfni, dewiswyd Mr. Thomas Merfyn Hughes yn ddarpar ymgeisydd Seneddol yn Ddarostyngedig i gadarnhad y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

Mab yw Mr. Hughes i Mr. a Mrs. Medwyn Hughes, 'Camlan', Llandegfan ac ŵyr i'r diweddar Barchedig J.E. Hughes, Brynsiencyn. Mae yn 28 oed ac yn fargyfreithiwr yng Nghylchdaith Caer a Chymru.

Wedi gyrfa addysgol lwyddiannus, graddiodd gydag anrhydedd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Lerpwl ym 1970, a galwyd ef i'r Bar ym 1971.

Mae ei dad, Mr. Medwyn Hughes yn Ddirprwy Faer Môn. Edrychir ymlaen at briodas Mr. Merfyn Hughes a Miss Patricia Talbot o'r Gwesty 'Hobson's Choice' ym Miwmares yn y gwanwyn.

DRAENOG DWYIEITHOG

Draenoges drws nesa 'cw'n deud ei bod wedi cael 'Appeal Letar' gan Reithor Llan'iolan a dau o bobol bwysig arall yn gofyn am bres. "Yn Saesneg oedd o?" me' fi. "Ia!", me' hi. "Pam na yrrodd o un Cymraeg?" me' fi wedyn. "O, mae o'n apolojiesio yn Gymraeg, ac yn deud fod raid iddo fo yrru i lawer o bobl sydd ddim yn gyfarwydd â'r Gymraeg", me' hi. "O!", me' fi.

DANTEITHION DRAENOG

W'sos diwetha rhoddodd Draenog ei big i mewn yn y clwb Cymraeg newydd yng Nghaernarfon, sef Clwb Tanybont.

Gan ei fod ar lwgu holodd Draenog am damaid o fwyd. Diddorol nodi un eitem o'r fwydlen, sef:

Cipars a rôl - 30c

Dyna i chi Gymraeg o safon ynte!

Ol-nodyn: Hei, blodyn, unrhyw dro mae gen ti ffansi rôl efo cipar, yna Tanybont yw'r lle!



TRIP YSGOLION

BETHEL, DOLBADARN
A BANGOR
ISELDIROEDD A'R ALMAEN

BYDD y trip yn cychwyn ddydd Mawrth, Gorffennaf 19eg a dychwelir ddydd Llun Gorffennaf 25ain.

Mae lle i ychydig oedolion ac/neu blant. Os oes rhywun yn dymuno ymuno a wnewch chi gysylltu â:

Mr. J.L. Jones,
Tŷ'r Ysgol, Bethel
neu

Mr. W.M. Roberts
2 Bryntirion, Llanrug

Trip gwerth chweil am bris rhesymol

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Arvon Coaches
LLANRUG**

FFÔN WAUNFAWR 254

Dyddiadur y Mis

Mawrth 1af — Dydd Mawrth: *Llanrug* — Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr yn cael swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon. — Dosbarth WEA 'Maeth, yr Allwedd i Iechyd Dr.' Eirwen Gwynn yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 p.m. *Deiniolen* — Clwb yr Henoed yn cyfarfod. *Llanberis* — Undeb y Mamau yn cyfarfod. **Mercher 2ail:** *Llanberis* — Bingo dan nawdd y Gangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. *Deiniolen* — Sefydliad y Merched yn trefnu 'Noson Lawen' i bensiynwyr yr ardal yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Iau 3ydd: *Deiniolen* — Cymdeithas y Chwiorydd, Disgwylfa yn cyfarfod. *Llanberis* — Cinio Gŵyl Ddewi yr Henoed yng Nghwesty'r Victoria am 12.30. *Llanrug* — Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Mawr yn cyfarfod am 7.00. Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Llaeth a Mâl' yn Ysgol Brynrefail. Y noson dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanrug. *Brynrefail* — Y Gymdeithas Lenyddol yn cael swper Gŵyl Ddewi yng Nghwesty'r Holland Arms, Pentre Berw.

Gwener 4ydd: *Bethel* — Dosbarth WEA 'Maeth yr Allwedd i Iechyd' — Dr. Eirwen Gwynn yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. *Llanberis* — Adran Urdd Ysgol Dolbadarn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda the parti. *Deiniolen* — Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Ffestri Ebenezer am 2.15. *Penisarwaun* — Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.

Sadwrn 5ed: *Deiniolen* — Seindorf y Pentref yn chwarae i'r dorf yn y Gêm Hoci Ryngwladol rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon ym Mangor.

Llun 7ed:

Llanrug — Seindorf yn cynnal Gyrfa Chwilod yn y Bandroom am 7.30. Dosbarth WEA 'Hanes Cymru', Mr. Bryn Lloyd Jones yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. *Llanberis* — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Cymdeithas Lenyddol Eglwys MC yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghesty'r Erw Fair am 7.30. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd', Mrs. B. Mansel Owen yn yr

Ysgol Gynradd am 7.00.

Mawrth 8ed: *Cwm-y-glo* — Undeb y Mamau yn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd.

9ed Mercher: — *Bethel* — Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio ym Mhlas Maenan, Llanrwst. *Deiniolen* — Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Llaeth a Mâl.' *Llanberis* — Clwb y Mamau yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Mr. Lal Jones a'i Gwmni yn y Ganolfan am 7.30.

Iau 10ed: *Llanrug* — Clwb Blodau'r Grug yn cyfarfod am 2.00.

Gwener 11eg: *Bethel* — Dosbarth WEA 'Maeth yr Allwedd i Iechyd', Dr. Eirwen Gwynn yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. *Penisarwaun* — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. *Llanberis* — Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. *Deiniolen* — Merched y Wawr yn cael swper Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gallt y Glyn Llanberis.

Sadwrn 12: *Eisteddfod yr Urdd Cylch Arfon* yn Ysgol Brynrefail am 1.30. *Llanberis/Nant Peris:* Cangen Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio yng Ngwesty'r Dolbadarn yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley AS.

Llun 14eg: *Llanberis* — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' Mrs. B. Mansel Owen yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. *Llanrug* — Dosbarth WEA 'Hanes Cymru', Mr. Bryn Lloyd Jones yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. *Deiniolen* — Y Cyngor Eglwys yn cyfarfod yn Eglwys Llanddinorwig am 7.00.

Mawrth 15: *Llanberis* — Cyfarfod Undebol Eglwys — Seiat yng Nghapel Nant Padarn dan arweiniad Y Parch. George Brewer ar y Thema 'Credun Nuw'.

Deiniolen — Clwb yr Henoed yn cyfarfod.

Mercher 16: *Bethel* — Disgo dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Neuadd am 7.30. *Llanberis* — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. *Cwm-y-glo* — Merched y Wawr yn cyfarfod yng nghwmni Wil Parsal, Trefor yn yr Ysgol.

Iau 17: *Llanrug* — Clwb y Mamau yn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd. *Llanberis/Nant Peris:* Eisteddfod Eglwys MC yng Nghapel Gorffwysfa.

Gwener 18: *Bethel* — Merched y Wawr yn cael cyngerdd gyda Pharti Eryri yn y Neuadd am 8.00. *Llanberis/Nant Peris* — Eisteddfod Eglwys MC yng

Llun 21: *Llanberis* — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John Yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA

'Gwerthfawrogi Celfyddyd', Mrs. B. Mansel Owen yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. *Bethel* — Gyrfa Chwist dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Neuadd am 7.30. *Llanrug* — Dosbarth WEA 'Hanes Cymru', Mr. Bryn Lloyd Jones yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

Mawrth 22: —

Mercher 23: *Llanberis* — Clwb y Mamau yn cyfarfod yng nghwmni Miss Bessie Roberts yn y Ganolfan am 7.30.

Iau 24: *Llanrug* — Cyngerdd Mawreddog yn Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd Eurig Wyn gyda Dafydd Iwan, Hefin Elis, Parti Meibion Dwyfor, amryddawn ddoniau lleol.

Penisarwaun — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. *Llanberis* — Clwb yr Henoed yn y Ganolfan.

Deiniolen — Noson Goffi a Stondinau etc. yn Ysgol Gwaun Gynfi. Er budd Eglwys y Tabernacl.

Sadwrn 26: Cymdeithas Aredig *Llanrug/Pentir/Aber* yn cynnal eu Cystadleuaeth Flynyddol ar dir Y Grug. Eisteddfod Sir yr Urdd.

Llun 28: *Llanberis* — Clwb Methodig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth 29: *Deiniolen* — Clwb yr Henoed yn cyfarfod.

Mercher 30: *Llanberis* — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

Iau 31: *Llanrug* — Noson Goffi ac Arwerthiant yn yr Ysgol Gynradd. Yr elw er budd y Clwb Ieuencid. *Llanberis* — Sefydliad y Merched yn

cyfarfod yng nghwmni Mrs. Laine, pryd y ceir sgwrs ar 'Grefftwaith' yn y Ganolfan am 7.00. *Llanrug* — Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail am 7.00 gydag eitemau gan gorau plant ac athrawon, grwpiau offerynnol, partion cyd-adrodd a doniau lleol.

Anfoner y manylion i: Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl-Elidir, Llanberis, Ffôn: Llanberis 220.

AR WERTH

Cwch Bren (Clincar) — 12' wedi torri — ond modd ei thrwsio — gyda rhwyfau ac angor. Ffôn: Caernarfon 3719.

"Fan Heater" yn gweithio'n berffaith — £8. Ffôn: Caernarfon 3719.

Black & Decker Power Saw 3 Blade. 7 1/4" — £25. **Lobster Pot Playpen** £4.

G. Roberts, 6 Bryneglwys Penisarwaun Tir gyda hawl cynllunio — ym Mhenisarwaun. Ymholiadau: Mr. R. Rowlands, Glanrafon, Penisarwaun.

Cynheswr 'Belling' trydan da — £5

Suite Parker Knoll newydd — £250

Radio gario fechan — £5

John E. Williams, Y Gors, Pont-rhythallt, Llanrug.

YN EISIAU

Cadair i gario plentyn i'w gosod ar feic Mrs. Delyth Williams, Groeslon Raca.

Hen Garped a Wardrob i Gwmni Drama Llanberis.

Playpen mewn cyflwr da — Mrs. Roberts, 41 Maes Padarn, Llanberis.

AR DRAWS:

- Mae Llyn Peris, a Phadarn ran hynny, yn llawn ohono (3)
- Pentwr o wair (3)
- Dail sych planhigyn o'r dwyrain, ond gall fod yn amser (2)
- Fel hyn mae dal iâr (3)
- Mae wedi bod (2)
- Prydferth neu annwyl (3)
- Briw neu archoll (4)
- "... Dien" — Rwy'n gwasanaethu (2)
- Ystlys (3)
- Penaethiaid Pel-droed! (2)
- Pentre' glan y môr yng Ngwynedd (12)
- Rhan o'r llynges (2)
- A thymestl wynt Tachwedd a gyfyd ei ... (2)
- Anrhydedd o fath (3)
- Haint (3)
- Llawer (2)
- Dafydd Wigley er enghraifft (2)
- "O ... yr hyfryd wawr ar led" (3)
- Ydyw (2)
- Cant o lo a lle handi i'w gadw (3)
- Mae hon ar fôn fy ngenwair (3)
- Ond heb ddim!! (2)
- Rêl boi am wneud lluniau (2)
- Dwy ebychiad! (2)
- Beth mae Dafydd Iwan a Rol Williams yn ei wneud heblaw byw yno!! (4,8)

I LAWR:

- Dyma'r boi i frecwast (2)
- John ... (5)
- Rhywbeth yn llosgi (3)
- "... don" (5)
- "... yn rhes ar wifrau y teligriff" (6)
- "Cryfach oedd ei ... ef a'i ddur" (4)
- Grwnach (5)
- Yn y pen yma o chwarel Llanberis mae Awstralia (3)
- Gwneir hyn i bob babi (9)

16. Cafodd y mab yma groeso mawr (8)

23. Caiff hwn ei erlid gan y merched tua'r gwanwyn (3)

24. Dwy (3)

25. Elias!! (3)

26. Mae yng Nghwm Dwythwch (3)

27. Dyma'r stwff cyn yr ŵy (3)

35. Hitiails fy modyn! (2)

37. Crai (2)

38. Gwyrdd (2)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythrennau:

CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH. Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

ATEBION RHIF 10


AR DRAWS: 1. Potes; 5. Hedyn; 8. Tyrru; 9. Nerthu; 10. Dafad; 11. Mabod; 12. Adda; 13. Tu; 14. Genethod; 19. Nodedig; 23. Bu; 24. Acw; 26. Gwael; 27. Amryw; 28. Ymladd; 29. Ymolch; 30. Negydd; 31. Undod.

I LAWR: 1. Pensaer; 2. Torcalon; 3. Stumog; 4. Crwban; 5. Hudlath; 6. Dofi; 7. Nodau; 15. Ebe; 16. Eli; 17. Diwaelod; 18. Trwydded; 20. Digwydd; 21. Diamod; 22. Gwlychu; 23. Brain; 25. Brig.

Enillydd Croesair Rhif 10: Mrs. Katie Owens, 20 Dôl Eilian, Llanberis (am yr ail dro 'dwi'n credu — Llongyfarchiadau).

Dyma batrwm newydd ar y 'Croesair' a anfonwyd inni gan Mr. Jim Parry, Caernarfon, a diolch iddo am syniad mor greadigol i'w gyflwyno. Maddeuwch inni am yr ychydig newidiadau Mr. Parry! Oes yna rywun arall yn teimlo fel troi ei law i greu un, 'dwi'n siwr fod yna. Beth amdani? Bydd £1 o wobwr i bob un a argraffir, yn ychwanegol i'r £1 o wobwr am ei gwblhau, arwahân i'r hwn a'i creodd, wrth gwrs. Anfoner y cynigion fel arfer i Myrddin Owen 32 Stryd Fawr, Llanberis.

CROESAIR Rhif 11



CHWARAEON

'DA CHI WEDI CALLIO?

ROEDD y newydd yn ein rhifyn olaf o'r Eco fod rhai o drigolion Nant Peris yn helpu'r ieuencid i ffurfio tîm pêl-droed yn galondid i'r rhai sydd â diddordeb mewn sicrhau fod holl blant yr ardal yn cael y cyfle i chwarae.

Yn sgil y datblygiad yma bûm yn trafod gydag amryw y posibilrwydd o sefydlu cynghrair ieuencid ym mro Eco'r Wyddfa, gan fod tîm bron ym mhob pentref bellach. Fel y disgwyliad roedd pawb yn cadarnhau'r cynnig nes i mi ddod at un a fynegai'r farn NAD OEDD HAWL GAN NANT PERIS I FFURFIO TÎM O GWBL.

'Doedd o ddim yn saff o'i ffeithiau, ond credai fod tîm o'r pentref tua'r flwyddyn 1925 wedi eu gwahardd rhag chwarae pêl-droed - sine die - am byth.

Holais eraill o drigolion hynaf ardal gan geisio cael rhyw fath o grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd. 'Roedd stori pawb yn wahanol ond pob un yn cadarnhau fod rhywbeth wedi digwydd.

Credai un mai gêm gwpan rhwng y Nant a Biwmares oedd hi a llwyddodd i gofio enwau rhai o'r tîm, sef Idwal Roberts o'r Ceunant, Wmffra Closs, Ty'n Llan, Nowi o Gaernarfon ac Efan o'r Waunfawr. Griffith Evans, Bob Williams ac Owen G. Jones o Ddeiniolen (mae Mr. Jones yn byw yno o hyd). Dan Roberts o Lanberis oedd y canolwr.

Credai un arall mai H.O. Williams oedd enw'r reffari - dyn o Fangor, a rhoddodd y bai am yr holl helynt yn sgwâr ar ysgwyddau hwnnw.

Y STORI

Ar gae Weirglodd Ddu y byddai'r Nant yn chwarae, a'r afon yn rhedeg i Lyn Peris ar ei ochr ogleddol - fedrwyd chi weld y stori'n datblygu?

Dim ond ychydig funudau ar ôl, a'r Nant yn ennill o ddwy gôl i un pan ddarfarnodd y reff. gic gosb i Biwmares oddi ar y smotyn gwyn.

Dyna hi'n helynt yn syth, a bu'r reffari druan yn ffodus i gyrraedd Bangor yn sych a dianaf.

Dyfarfodd pwyllgor y gynghrair mai Biwmares oedd i ennill y gêm, ac na fyddai tîm o Nant Peris yn cael ymuno â'r Gynghrair byth eto.

ARCHWILIO

Stori ramantus ynte? Ond gan fod nifer o amrywiadau arni, penderfynais chwarae ditectif a threulio pŵer yn mynd trwy hen rifynnau o'r papurau lleol yn Archifau Sir Gaernarfon.

Dyma le diddorol yw hwn. Mae'r hen bapurau yn cynnwys pob stori o sgandal dros gyfnod o ganrif a hanner, ond gwaith beichus iawn yw ceisio dod ar draws un digwyddiad arbennig, ac heb fod yn sicr o'r dyddiad.

Yn rhifyn Ionawr 1925 o'r North Wales Chronicle sylwais fod Harry Williams o Glwb Llanrug F.C. wedi ei wahardd rhag chwarae am 28 niwrnod am gicio un o chwaraewyr y Felinheli ac am regi'r reffari (H.O. Williams o Fangor goeliwch chi) a bod y Clwb wedi talu dirwy o ugain swllt.

Mae adroddiad maith yn rhifyn Mawrth o'r un papur ar drafodaeth y pwyllgor ar y cyhuddiad a wnaeth Caernarfon FC fod Llanberis FC wedi dwyn un o'i chwaraewyr, sef W.H. Deeley. 'Roedd hwnnw wedi arwyddo i'r ddau dîm, ei fryd ar chwarae i Lanberis ond fod Caernarfon yn talu mwy iddo. Ffurfiwyd is-bwyllgor i holi'r ddau dîm a'r chwaraewr.

Yn rhifyn 19 o Ragfyr 1925 o'r Caernarfon & Denbigh Herald mae'r crybwylliad cyntaf o helynt Nant Peris.

Y FFEITHIAU

Mewn cyfarfod o bwyllgor Cynghrair Genedlaethol Cymru Rhanbarth 3 (Gorllewin) yn

eistedd ym Mangor darllenwyd llythyr oddi wrth glwb Caernarfon yn cyhuddo Nant Peris o geisio lladrata un o'i chwaraewyr.

Dyfarfodd y cadeirydd na ellid trafod y mater gan fod Clwb Nant Peris wedi ei wahardd rhag chwarae gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru. Ymddengys fod Mr. Arthur Dean, y dyfarnwr mewn gêm Gynghrair rhwng Nant Peris a Llandegfan ar y 5ed o Ragfyr wedi cwyno mewn llythyr at y Gymdeithas fod chwaraewyr o dîm y Nant wedi ymosod arno. 'Doedd hi ddim yn gêm agos, 'roedd Llandegfan yn ennill o chwe gôl i dair ar y pryd ac na wyddai ef am unrhyw achos dros eu hymddygiad.

Gwrthododd y Clwb ag ateb y llythyr a anfonwyd atynt gan y Gymdeithas, ac am hyn fe'u gwaharddwyd rhag chwarae.

Fel hyn mae'r adroddiad yn y C. & D. yn gorffen:

"In the letter, Mr. Williams, of the Welsh FA had said - 'This Club must not play football till they come to their senses'."

Aeth y Cadeirydd ymhellach gan siarsio pob Clwb i beidio â chwarae yn erbyn Nant Peris, gan y buasai hynny yn golygu 'suspension' iddynt hwythau hefyd.

Mae'n amlwg oddi wrth y ffeithiau nad yw'r digwyddiad anffodus mor ramantus ag mae rhai yn ei gofio.

HELFU LLANRUG

Mae ôl nodyn diddorol i'r stori yn rhifyn Mawrth 5ed 1926 o'r Chronicle.

"The suspension of Nant Peris from Div. 3 places Llanrug at the head of the table. This is a blow for Beaumaris, who had obtained the maximum points from them. As Llanrug had not met Nant Peris their record remains intact. But it is unfair for the Anglesey Club to forfeit 4 points."

Llanrug aeth â'r bencampwriaeth, diolch i Nant Peris. Yng ngwaelod y tabl roeddynt hwy gyda llaw, efo un pwynt allan o bum gêm.

Mae'n amlwg felly nad oes a wnelo hyn ddim byd â chi, hogia, gan fod y Gynghrair yma wedi peidio â bod ers blynnyddoedd bellach. Ond mae'r stigma yn dal wrth dimau a chwaraewyr y Nant.

Yda' chi wedi callio hogai?

GWOBR AM NOFIO

Mae Noel Owen o Fethel a William Emrys Jones o Lanberis y ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail wedi ennill Gwobr Arian Cymdeithas Nofio Prydain.

Ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr. D.T. Edwards (Dafydd Twm) Bethel. Bu'n chwarae'n gyson i Lanberis yn ystod y tridegau. Ei fab Bruce yw rheolwr y tîm presennol, a chafwydd blynnyddoedd o wasanaeth yn nhimau Llanberis a Llanrug gan Gwyn a Brian.

PÊL DROED

Amddiffyn y Cwpan Alves oedd tasg Llanberis ar y 5ed o'r mis, yn erbyn y Brifysgol ym Mangor, 4-2 oedd y sgor, Gwilym Williams (2) Barry Pitts a Ray Harding yn eu sgorio.

Drwy guro Pwllheli sydd ar ben y gynghrair o 2 gôl i 1 ar y 19; ceisiodd Llanberis wneud cymwynas â Llanrug. Kelvin Jones a Barry Pitts yn sgorio y tro hwn, ond roedd Llanrug yr un prynhawn yn brysur yn colli o un gôl i ddim yn erbyn Caernarfon Utd.

Siomedig fu hynt Llanrug yn y Cwpan Aaves hefyd, eu curo o dair gôl i ddwy yng Nghricieth. J. Cadwaladr ac E. Talbot fu'n llwyddiannus iddynt.

Y DARBI

Chwefror 26ain

LLANRUG O LLANBERIS O

Rownd gyntaf cwpan y Penrhyn a gêm gyffrous dros ben. Galwyd ar golgeidwad Llanberis Ieuan Roberts, i ddal y bêl yn arbennig o dda droeon ym munudau cynnar y gêm, a bu'r gwaith coed yn gymorth iddo. fwy nag unwaith. 'Roedd Hefin Pritchard a Jackie Smith yn poeni amddiffynfa Llanberis yn ddirugaredd, a Keith Davies yn eu cefnogi'n fedrus o ganol y cae. Ceisiodd Sel. Allsup roi stop arno â thacl oedd braidd yn ddiweddar, ac aeth ei enw i lyfr bach y dyfarnwr.

Camarweiniol fyddai rhoi'r argraff ei bod yn hollol unochrog er hynny, gan i Ieuan Evans a Kelvin Jones greu problemau yn amddiffynfa Llanrug.

Y 'sgôr' ar hanner amser oedd dwy gic gornel i Lanberis a dau drawiad yn erbyn y postyn i Llanrug.

'Roedd yr ail hanner yn argoeli'n dda, ond siomedig fu ar y cyfan heb gymaint o gyffro â'r cyntaf. Bu galw ar y ddau golgeidwad i arbed yn dda eto, ac yn y cyfnod yma Llanberis oedd y tebycaf i sgorio, gan fod Ieuan Evans yn boen cyson i gefnwyr Llanrug. Peniodd Gwilym Williams y bêl dros y bar a thrawodd Barry Pitts ochr y rhwyd, ond er hyn teimlid mai Llanrug oedd y tebycaf i sgorio'r gôl gyntaf.

Gwelsom gynigion da gan A.V. Owen a Keith Davies ac 'roedd cefnwyr Llanberis yn bodloni ar gicio'r bêl i rhywle er cadw'r sgôr yn gyfartal.

Daeth cyfle i Lanrug drwy Hefin Pritchard ym munud ola'r gêm, ond cododd y bêl yn ddiweddar dros y bar, a bu'n rhaid bodloni ar ail chwarae yn Llanberis y Sadwrn nesaf.

CWPAN PANTYFEDWEN

Mae Aelwyd Llanberis am ddal eu gafael ar gwpan fawr yr Urdd os yw canlyniadau eu dwy gêm ddiwethaf yn unrhyw gyfeirdd.

Ar ôl trechu Botwnnog o wyth gôl i un, Bae Colwyn fu'r nesaf i'w dinistrio ganddynt - a'r sgôr? Bae Colwyn 3, Llanberis - 12 gyda Iwan Evans yn sgorio pedair, J. Trevor Williams, 3 a Threfor Evans 2. Gareth Williams Tony Thomas a John Williams sgoriodd y gweddill.

RHEDEG TRAWS GWLAD

CYNHALIWYD rasmus traws gwlad Ysgol Brynrefail ar y 25ain o'r mis, ac er na fu llawer yn cystadlu 'roedd y safon yn bur uchel.

Yn y ras i'r bechgyn ieuaf torrodd Michael John Williams y record gan gwblhau'r cwrs mewn 17m. 7 eiliad. Dilwyn Morris oedd yr ail a David Gerrard yn drydydd.

Y canlyniadau eraill oedd: Bechgyn Iau: 1. Kelvin Lewis (15m 40eil.) 2. Robin Williams (3) Michael Griffiths.

Bechgyn Hŷn: (1.) I. Wyn Evans (21m.27e.) (2) Cai Larsen (3) Mark Haycroft

Genethod: 1. Carol Ann Jones (19.23) 2. Mair Eluned Morgan 3. Carol Griffiths a'r pwyntiau i'r tai fel a ganlyn:

Gwryfai 81; Eryri 64; Elidir 53½ ac Eilian 42½



Wyn Evans a Kelvin Lewis yn y cefn, a Michael John Williams a Carol Ann Jones yn y rhes flaen.